RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
25/2025
DYDDIAD CYHOEDDI:
06/03/2025

# Gwella deilliannau llesiant ac addysgol i blant yng Nghymru y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt: adolygiadau o lenyddiaeth, polisi ac ymarfer

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-412-8

# Prosiect ASPIRE:

## Gwella deilliannau llesiant ac addysgol i blant yng Nghymru y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt: Adolygiadau llenyddiaeth, polisi, ac ymarfer

Er mwyn rhoi hunaniaeth glir i'r prosiect i randdeiliaid, defnyddiwyd yr acronym 'ASPIRE' (Gweithredu Gwerthusiad Ymchwil Annibynnol o Ysgolion a Charchardai) trwy gydol y prosiect.

Nancy Loucks, Sarah Beresford, Polly Wright, Ben Raikes, Alyson Rees, Freya Kenny, a Sylvia Stevenson

Loucks, N., Beresford, S., Wright, P., Raikes, B., Rees, A., Kenny, F. and Stevenson, S. (2025). Gwella deilliannau llesiant ac addysgol i blant yng Nghymru y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt: Adolygiadau llenyddiaeth, polisi, ac ymarfer. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 25/2025.
Ar gael yn https://www.llyw.cymru/cymorth-i-blant-yr-effeithir-arnynt-gan-riant-yn-y-carchar-ymchwil-cwmpasu

Safbwyntiau'r ymchwilwyr, ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru, yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwil.gwasanaethauchoeddus@llyw.cymr

# Tabl cynnwys

Rhestr ffigurau ....................2
Geirfa 3
Cydnabyddiaethau ....................5
Tîm ASPIRE....................5
1. Cyflwyniad ....................6
2. Adolygiad o lenyddiaeth ....................7
3. Adolygu'r polisi ....................15
4. Adolygiad o ymarfer ....................23
5. Cyfeiriadau ....................33
Atodiad C: Gwasanaethau ac adnoddau Cymraeg i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt....................51
Atodiad D: Poblogaeth carchardai Cymru ....................52

## Rhestr ffigurau

Figure 1: Four purposes of the curriculum ............................. **Error! Bookmark not defined.**

## Geirfa

**ACE**

Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod

**ASPIRE**

Gweithredu Gwerthusiad Ymchwil Annibynnol o Ysgolion a Charchardai

**COPE**

Plant Carcharorion yn Ewrop

**EOTAS**

Addysg Heblaw yn yr Ysgol

**ESTYN**

Estyn yw'r arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru

**FABI**

Teuluoedd y mae Carchariad yn Effeithio Arnynt

**FFOPS**

Teuluoedd a Ffrindiau Carcharorion

**HMPPS**

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Fawrhydi

**LHDTC+**

Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol, Drawsryweddol a Chwiar, yn ogystal ag unrhyw rywioldeb a rhyweddau eraill nad ydynt wedi'u nodi gan y pum llythyren gyntaf

**NEET**

Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant

**NICCO**

Canolfan Wybodaeth Genedlaethol am Blant Troseddwyr

**PACE**

Profiadau Amddiffynnol a Chydadferol

**PACT**

Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai

**POPS**

Grŵp Cymorth Partneriaid Carcharorion

**CCUHP**

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

**VRU**

Uned Lleihau Trais

**YOI**

Sefydliad Troseddwyr Ifanc

## Cydnabyddiaethau

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei lywio drwyddi draw gan farn a phrofiadau plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o riant yn y carchar, rhieni a gofalwyr yn y gymuned, a rhieni yn y carchar. Mae tîm ASPIRE yn hynod ddiolchgar am eu mewnbwn ac am fewnbwn y grŵp cynghori arbenigol (gweler Atodiad A), yn ogystal â mewnbwn ymarferwyr ac arweinwyr polisi o fyd addysg, gwaith cymdeithasol, cyfiawnder troseddol, a'r trydydd sector. Er mwyn cadw anhysbysrwydd, nid yw enwau wedi'u defnyddio.

## Tîm ASPIRE

Mae **Sarah Beresford (Dirprwy Reolwr y Prosiect)** yn ymgynghorydd annibynnol ac yn Gydymaith yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai.

Mae **Freya Kenny (Cynorthwyydd Ymchwil)** yn Uwch-baragyfreithiwr sy'n dilyn gyrfa yn y gyfraith ac ymgyfreitha.

**Yr Athro Nancy Loucks OBE (Rheolwr y Prosiect)** yw Prif Weithredwr Families Outside, ac mae'n Athro gwadd yng Nghanolfan y Gyfraith, Trosedd a Chyfiawnder Prifysgol Ystrad Clud (Strathclyde).

Mae **Dr Ben Raikes (Arweinydd Diogelwch a Phennaeth Llywodraethu)** yn Uwch-ddarlithydd mewn Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Huddersfield.

Mae’r **Athro Alyson Rees (Arbenigwr Cymru)** yn Athro yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn Ddirprwy Gyfarwyddwr y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol i Blant.

Mae **Sylvia Stevenson (Cynorthwyydd Ymchwil)** yn fyfyriwr PhD ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae **Polly Wright (Arbenigwr Polisi)** yn ymgynghorydd polisi, ymarfer ac ymchwil plant a theuluoedd.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Gorffennaf 2023, comisiynodd Llywodraeth Cymru dîm ASPIRE (Gweithredu Gwerthusiad Ymchwil Annibynnol o Ysgolion a Charchardai) am gyfnod o 12 mis i ddarparu opsiynau ac ystyriaethau ar gyfer model cenedlaethol o gymorth i wella llesiant a deilliannau addysgol plant yng Nghymru y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Mae tîm ASPIRE yn gydweithrediad dan arweiniad Families Outside (elusen genedlaethol yn yr Alban sy'n cefnogi teuluoedd y mae carchariad yn effeithio arnynt) a gefnogir gan Brifysgol Huddersfield, Prifysgol Caerdydd, dau ymgynghorydd annibynnol sy'n arbenigo mewn polisi ac ymarfer sy'n gysylltiedig â phlant y mae carchariad yn effeithio arnynt, a dau gynorthwyydd ymchwil.

1.2 Cyflawnwyd ASPIRE dros bum cyfnod allweddol rhwng mis Gorffennaf 2023 a mis Mehefin 2024. Roedd y rhain yn cynnwys:

- cam 1: cyflwyno'r cefndir, a oedd yn cynnwys adolygiad o'r llenyddiaeth, y polisi a'r ymarfer sy'n gysylltiedig â phlant a chanddynt riant yn y carchar, ac arolwg sylfaenol o'r cymorth a ddarperir i blant yng Nghymru a chanddynt riant yn y carchar
- cam 2: astudiaeth achos o fodel Parth Ysgolion Carchar Ei Fawrhydi (CEF) a Sefydliad Troseddwyr Ifanc (YOI) y Parc
- cam 3: digwyddiad amlasiantaethol Cymru gyfan ym Mhrifysgol Caerdydd
- cam 4: ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol: plant a theuluoedd, staff addysg, staff carchar o bob carchar yng Nghymru a Charchardai ei Fawrhydi Styal ac Eastwood Park (carchardai menywod), rhieni yn y carchar, awdurdodau lleol, a phenderfynwyr y llywodraeth
- cam 5: adroddiad terfynol a oedd yn crynhoi canfyddiadau ac opsiynau allweddol ar gyfer modelau cymorth posibl i blant a phobl ifanc a chanddynt riant yn y carchar

1.3 Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno canfyddiadau'r adolygiadau o lenyddiaeth, polisi ac ymarfer a gynhaliwyd yng ngham un.

## 2. Adolygiad o lenyddiaeth

### Effaith carcharu rhiant ar blant

2.1 Fel y dywed Flynn (2017), er bod nifer o astudiaethau wedi tynnu sylw at effaith ddinistriol bosibl carchariad rhiant ar blentyn (Condry a Scharff Smith, 2018; Jones et al., 2013; Kincaid, Roberts a Kane, 2019; Robertson 2011), mae'r llenyddiaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio o ran gwella canlyniadau i blant yn brin. Yn ogystal ag ymdeimlad sylweddol o golled, mae llawer o blant yn profi stigma, ynysigrwydd cymdeithasol, cywilydd ac ofn (Jones et al., 2013). Mae astudiaethau wedi nodi mai cywilydd a stigma oedd rhai o'r agweddau mwyaf heriol ar garchariad rhiant, a bod llawer o deuluoedd yn cael eu trin fel petaent hwythau'n euog oherwydd eu cysylltiad â'r troseddwr (Y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol, 2022; Cooper et al., 2023; Flynn ac Erikkson, 2017). Er gwaethaf y ffaith nad oeddent wedi cyflawni'r drosedd eu hunain, mae'r ymatebion cosbol o du'r system cyfiawnder troseddol a chymdeithas yn gwaethygu'r heriau a wynebir gan blant y cyfeiriwyd atynt fel troseddwyr cyfochrog (Robertson, 2011). Gall carchariad rhiant gael effaith negyddol ar lesiant emosiynol byrdymor plentyn, yn ogystal â'i ragolygon iechyd a chymdeithasol hirdymor (McGillivray, 2016).

2.2 Mae plant a chanddynt riant yn y carchar hyd at deirgwaith yn fwy tebygol o brofi anawsterau iechyd meddwl (Philbrick, 1997; Families Outside 2017). Daeth astudiaeth fawr ledled Ewrop (The Children of Prisoners: Interventions and Mitigations to Strengthen Mental Health) i'r casgliad bod plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt yn wynebu risg sylweddol uwch o ddioddef o anawsterau iechyd meddwl na phlant nad yw rhiant iddynt wedi bod yn y carchar (Jones et al., 2013). Gall plant a chanddynt riant yn y carchar brofi hunan-barch isel, iselder ysbryd, anhunedd, a symptomau straen wedi trawma (Myers et al., 1999). Nid yw llawer o blant yn cael digon o gymorth, maent yn teimlo stigma, ac, yn aml, nid ydynt yn siarad am yr hyn y maent wedi'i brofi; gallai hyn oll esbonio pam y maent yn fwy tebygol o brofi problemau iechyd meddwl na phlant eraill. (Jones et al., 2013).

2.3 Mae'n gyffredin i blant a chanddynt riant yn y carchar brofi galar diymgeledd, sef y galar hwnnw 'y mae pobl yn ei brofi pan fyddant yn wynebu colled nad yw'n cael neu na all gael ei chydnabod yn gyhoeddus, na ellir galaru'n gyhoeddus amdani, neu nad yw'n destun cefnogaeth gymdeithasol' (Doka, 1989: 4). O ganlyniad, gall

plant deimlo emosiynau sy'n gysylltiedig â galar (tristwch, colled), yn ogystal ag ystod o emosiynau eraill sydd ynghlwm wrth y ffaith bod rhiant iddynt yn y carchar, emosiynau megis dicter, euogrwydd, dryswch, unigrwydd, ac ofn (Roberts, 2012; Kincaid, Roberts a Kane, 2019). Fodd bynnag, er bod systemau cymorth yn aml ar waith mewn ysgolion i helpu plant i ymdopi â phrofedigaeth, ni ellir dweud yr un peth pan fydd rhiant plentyn yn mynd i'r carchar (Worden, 2009), ffaith sy’n golygu bod y plant hynny’n agored i niwed ac yn ddigefnogaeth.

2.4 Mae cael ei wahanu oddi wrth ei fam yn arbennig o drawmatig i blentyn, yn enwedig os hi yw ei brif ofalwr (Rees, Staples a Maxwell, 2017). Mae menywod yn tueddu i gael dedfrydau byr am droseddau di-drais, a hynny heb i ystyriaeth amlwg gael ei rhoi i’r effaith ar eu plant (Baldwin ac Epstein, 2017), elfen a amlygir yn y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru, 2019). Mae Minson (2020) wedi bathu'r term 'galar llethol' oherwydd yr amrywiaeth o emosiynau negyddol a'r aflonyddwch a brofir pan fydd mam yn y ddalfa, o gymharu â charcharu aelod arall o'r teulu. Mae plant yn aml yn wynebu mwy o aflonyddwch pan fydd mam yn mynd i'r carchar, er enghraifft gorfod symud i fyw gyda pherthnasau neu ffrindiau, heriau yn yr ysgol neu orfod newid ysgolion (Minson, 2017 a 2020; Beresford, 2018), ac, o bosibl, gael eu gwahanu oddi wrth frodyr a chwiorydd (Rees, Waits, a Bezeczky, 2023). Gan nad oes carchar menywod yng Nghymru, mae'n rhaid i blant deithio ymhellach i ymweld â'u mam yn y ddalfa (Rees et al., 2022), elfen a all gael effaith ariannol sylweddol a'u gwthio i anawsterau ariannol (hyd yn oed gwaeth) (Families Outside, 2023 a 2024). Mae hyn yn arbennig o broblemus gan y gall rhwystrau i gadw cysylltiad cyson â'r rhiant yn y carchar arwain at ddirywiad yn y berthynas rhwng y rhiant a’r plentyn a phroblemau addasu i’r plentyn yr effeithir arno (Robertson et al., 2016; Lösel et al., 2012). Mae'r tarfu a achosir pan garcharir mam yn golygu bod y plant yr effeithir arnynt mewn mwy o berygl o ganlyniadau cymdeithasol a seicolegol niweidiol na'u cyfoedion (Poehlmann, 2005; Murray a Murray, 2010).

**Carcharu rhiant: Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod**

2.5 Mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) yn ddigwyddiadau trawmatig a all effeithio'n sylweddol ar iechyd a llesiant pobl yn y dyfodol. Yn gyffredinol, mae ymchwil yn nodi deg ACE; maent yn amrywio o drais domestig, i gamdriniaeth, i rieni’n camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, ac yn cynnwys carcharu aelod o'r cartref; (Felitti et al., 1998; Kincaid, Roberts a Kane, 2019; Brown, 2020). At hynny,

mae bod ag aelod o'r cartref yn y carchar yn gysylltiedig â chynnydd bum gwaith cymaint mewn amlygiad i ACEs eraill (Turney, 2018). Fodd bynnag, er gwaethaf ymchwil sy'n dangos bod plant y mae carchariad yn effeithio arnynt yn anghymesur o agored i ACEs eraill, nid yw ymchwil yn nodi a yw carcharu rhiant yn ACE annibynnol neu benodol, na'r graddau y mae hyn yn effeithio ar ganlyniadau plant yn annibynnol ar ACE eraill (Kincaid, Roberts a Kane, 2019).

2.6 Cynhaliwyd sawl astudiaeth yng Nghymru i ddeall profiadau unigolion o ACEs yn well, gyda'r nod o liniaru eu heffaith (Barton, Newbury a Roberts, 2018; Hardcastle et al., 2018; Hughes et al., 2020).

2.7 Mae astudiaethau'n dangos bod profiadau cadarnhaol yn ystod plentyndod yn gosod y sylfaen ar gyfer iechyd meddwl oedolion. Dangoswyd bod deg profiad amddiffynnol a chydadferol penodol (PACEs) yn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol yn wyneb adfyd (Morris a Hays-Grudo, 2023). Canfuwyd bod PACEs yn cael effaith glustogi ar ACEs ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau cymorth a ddarperir gan oedolion dibynadwy i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt (Rees et al., 2022).

### Nodi ac e-gasglu

2.8 Er nad oes yna unrhyw broses systematig ar waith i gofnodi a monitro plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, rhwng 1 Hydref 2021 a 1 Hydref 2022 amcangyfrifodd Gweinyddiaeth Gyfiawnder 2024: Better Outcomes through Linked Data (BOLD) fod gan 192,912 o blant yng Nghymru a Lloegr riant yn y carchar (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2024). Unwaith eto, mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar ddata cysylltiedig yn hytrach na phroses casglu data systematig. Yn fyd-eang, nid oes bron dim casgliad systematig o ddata ar waith o ran nifer y plant a adewir ar ôl pan fydd rhiant yn mynd i'r carchar (Y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol, 2022).

2.9 Gall deall nifer y plant sy'n profi carchariad rhiant fod o gymorth i gynllunio a chydlynu cymorth i blant a'u teuluoedd. Gall awdurdodau ddefnyddio data i wneud penderfyniadau a chreu polisïau sy'n cael effaith gadarnhaol ar blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, gan gynnwys grwpiau penodol o blant megis cymunedau ethnig leiafrifol (Plant Carcharorion yn Ewrop (COPE), 2019).

2.10 Y tu hwnt i gasglu data, mae cyhoeddi a lledaenu data cyfanredol hefyd yn bwysig. Mae COPE (2020) yn dadlau bod 'sicrhau bod data ar gael i'r cyhoedd yn elfen sylfaenol o feithrin ymwybyddiaeth a’i fod yn sbarduno camau gweithredu

gwleidyddol'; ar yr un pryd, ac yn bwysig iawn, mae'n cadw data'n ddienw i ddiogelu hawl plant i breifatrwydd.

2.11 Mae casglu a rhannu gwybodaeth i gefnogi plant pan fydd aelod agos o'r teulu yn mynd i'r carchar yn ymateb i hawliau plant i ofal a chymorth arbennig pan gânt eu hamddifadu o'u hamgylchedd teuluol, yn unol ag Erthygl 20 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP); yr hawl i wybodaeth, yn unol ag Erthyglau 9, 13 ac 17 CCUHP; a'r hawl i gymorth dan Erthygl 6 Argymhellion Cyngor Ewrop 2018 yn achos plant a chanddynt riant yn y carchar. Fodd bynnag, mae yna berygl gwirioneddol fod casglu gwybodaeth yn datgelu carchariad rhiant heb gydsyniad y teulu. Mae hyn yn ei dro mewn perygl o dorri Erthygl 2 y CCUHP mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail statws rhiant; Erthygl 16 o'r CCUHP mewn perthynas â'r hawl i breifatrwydd; ac Erthygl 55 o Argymhellion Cyngor Ewrop 2018 ynghylch amlygiad gan y cyfryngau.

2.12 Mae casglu data pan fydd rhiant yn mynd i'r carchar yn codi cwestiynau moesegol. I ddibenion diogelu data a chydsyniad, gwybodaeth pwy yw hi (y plentyn neu'r rhiant)? Beth yw'r cydbwysedd rhwng yr hawl i breifatrwydd a'r angen am gymorth neu amddiffyniad i blentyn? A yw er lles pennaf plentyn fod adrodd gorfodol yn cael ei gymell i asesu beth y gallai effaith carchariad rhiant fod arno? Neu a ddylai teuluoedd gael y rhyddid i ddewis drostynt eu hunain a ydynt am wneud cais am gymorth a gwybodaeth ai peidio?

2.13 Gall y stigma o garchar wneud teuluoedd yn anodd eu hadnabod, ac yn anaml iawn y bydd teuluoedd mewn sefyllfa o'r fath yn ceisio cymorth neu'n tynnu sylw atynt eu hunain pan fyddant yn cael pethau'n anodd. Dylid defnyddio'r broses o gasglu data i dynnu sylw at faterion sy'n ymwneud ag effaith carcharu rhiant, ac ni ddylai fod yn rhwystr i deuluoedd wrth iddynt geisio cymorth (Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, 2022). Hyd yn oed yn achos plant y gwyddys bod carchariad rhiant yn effeithio arnynt, ychydig iawn o awdurdodau lleol sydd wedi datblygu cynlluniau i gefnogi plant a chanddynt riant yn y carchar (Raikes, 2021; Kincaid, Roberts a Kane, 2019).

**Rôl ysgolion yn y broses o gefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt**

2.14 Mae plant yn treulio llawer iawn o amser yn yr ysgol. Mae ysgolion yn darparu rheoleidd-dra a strwythur, a gallant leddfu'r anawsterau y mae plant yn eu hwynebu;

dyma lle y gellir eu cefnogi a lle maent yn teimlo'n ddiogel (Mannay et al., 2015). Gall ysgolion, felly, fod yn achubiaeth i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, ac mae ganddynt y potensial i ddarparu cymuned bwysig o dosturi i deuluoedd (Roberts, 2012; COPE, 2022a). Mae dull amlddisgyblaethol ar y cyd rhwng ysgolion, carchardai a sefydliadau'r trydydd sector yn hanfodol i ddarparu cymorth cyfannol i blant (COPE, 2022b).

2.15 Mae'n bwysig cydnabod bod sawl rhwystr yn bodoli a all atal plant a chanddynt riant yn y carchar rhag cael cymorth yn yr ysgol neu'r gymuned. Y mwyaf cyffredin o'r rhain yw'r rhagfarn a'r stigma sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol (COPE, 2022a). Dywedodd McGillivray (2016:31) yn ddiflewyn-ar-dafod fod ysgolion, er eu bod yn gefnogol yn achos rhai, yn gyffredinol yn "lleoliadau lle caiff stigma ei amlygu, a hynny ar ffurf bwlio a diarddeliad". Mae plant a chanddynt riant yn y carchar yn aml yn cael eu hystyried yn wahanol i'w cyfoedion, ac mae cyd-ddisgyblion ac athrawon, fel ei gilydd, yn cysylltu gweithredoedd y rhiant â'r plant eu hunain (Warren, Coker a Collins, 2019; Roberts, 2012). Gall hyn gael ei amlygu yn ymatebion athrawon i blentyn, yn enwedig pan fo carchariad y rhiant yn cael effaith negyddol ar ymddygiad, presenoldeb a chyrhaeddiad plentyn (Phillips a Gates, 2010). Canfu Warren, Coker a Collins (2019) fod athrawon yn cynnal disgwyliadau isel o'r myfyrwyr hynny yr oeddent yn gwybod bod ganddynt riant yn y carchar, elfen sy'n dangos bod hwn yn ffactor sylweddol mewn canfyddiadau o lefelau cymhwysedd myfyriwr. Yn yr un modd, canfu Dallaire, Ciccone a Wilson (2010) fod athrawon yn amlygu tuedd fwy negyddol tuag at famau a oedd yn absennol o gyfarfodydd rhieni oherwydd eu bod yn y carchar, o gymharu ag unrhyw reswm arall, er enghraifft salwch. Gall agweddau a beirniadaeth athrawon olygu bod plant yn teimlo'n fwyfwy ynysig ac nad ydynt yn cael eu derbyn yn amgylcheddau ysgol, elfen sy'n lleihau'r tebygolrwydd y bydd gwybodaeth yn cael ei datgelu ac y rhoddir cymorth (Saunders, 2018).

2.16 Mae angen i ysgolion fod yn ymwybodol o'r effaith y mae bod â rhiant yn y carchar yn ei chael ar blant, a'r cymorth y mae arnynt ei angen: mae angen dull cydgysylltiedig i gynyddu llesiant cyffredinol plant a'u deilliannau addysgol (Roberts, 2012; Roberts a Loucks, 2015). Mae ysgolion yn chwarae rhan bwysig yn y broses o helpu i wrthsefyll y drafodaeth drechaf fod plant a chanddynt riant yn y carchar yn fwy tebygol o fynd i mewn i'r system gyfiawnder – honiad di-sail y mae Conway a Jones (2015) yn datgan sy'n arwain at stigma ac sy'n beryglus.

2.17 Dywed Pilotto (2024) nad yw mentrau carchardai-ysgolion yn unig yn ddigonol i wella perthnasoedd rhwng ysgolion a theuluoedd y mae carchariad yn effeithio arnynt, a bod hyfforddiant a pharatoad yn hanfodol. Amlygodd Morgan et al. (2013) fod ysgolion yn aml yn teimlo nad oeddent yn gwybod digon am fodolaeth plant a chanddynt riant yn y carchar, na beth oedd eu hanghenion penodol. Yn yr un modd, efallai y bydd llawer o athrawon yn teimlo bod arnynt angen gwybodaeth fwy arbenigol, ond gellir unioni hyn gyda hyfforddiant a chynnydd mewn prosesau meithrin ymwybyddiaeth (COPE, 2022a). Nododd astudiaeth Goldsmith a Byrne yn 2018 mai prin iawn neu gyfyngedig oedd gwybodaeth y mwyafrif o ymarferwyr am y system cyfiawnder troseddol a'i heffaith ar deuluoedd ac, o ganlyniad, roeddent yn llai hyderus yn eu gallu i ddarparu cymorth. O ganlyniad, canfu Cooper et al. (2023) fod y cymorth i blant mewn ysgolion yn parhau i fod yn gyfyngedig. Nid yw plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt yn grŵp blaenoriaeth yn y mwyafrif o ysgolion, ac oni bai fod pryderon ynghylch diogelu neu fwlio yn bodoli, mae'n bosibl y bydd ysgolion yn teimlo nad oes yna lawer y gallant ei wneud. Gall hyn fod yn broblem benodol yn achos ysgolion mewn ardaloedd mwy cefnog gan y gallent ystyried y mater hwn yn llai perthnasol (Long et al., 2022).

**Dull amlasiantaethol**

2.18 Mae papur briffio COPE (2022b) yn pwysleisio mai dull amlddisgyblaethol ar y cyd rhwng ysgolion, carchardai a sefydliadau cymunedol yw'r ffordd gadarnaf o sicrhau bod plant yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen. Yn yr un modd, mae ymchwil gan Kincaid, Roberts a Kane (2019) yn amlygu'r angen am gymorth cydgysylltiedig, teulu cyfan a thraws-sectoraidd er mwyn iddo fod o fudd i anghenion amrywiol plant a'u teuluoedd. Maent yn awgrymu y byddai protocolau ar y cyd rhwng awdurdodau lleol, carchardai a gwasanaethau prawf yn helpu i fynd i'r afael ag anghenion teuluoedd pobl sydd yn y carchar, a hynny'n seiliedig ar asesiad o anghenion y plant.

**Diogelu**

2.19 Yn aml, diffinnir carchariad rhiant fel mater diogelu ynddo'i hun (gweler Kincaid, Roberts a Kane, 2019, t.23). Mewn gwirionedd, nid yw carchariad rhiant yn cyfateb yn awtomatig i fater diogelu gan fod gofal priodol ar waith yn achos llawer o blant tra bo eu rhiant yn y carchar. Mae ymarferwyr, yn gyffredinol ond ar gam, yn cymryd yn ganiataol nad oes gan rieni (ac yn enwedig mamau) hawliau rhieni mwyach wedi iddynt fynd i'r carchar, ac y bydd yn niweidiol i blant ymweld â'u rhiant yn y carchar

(Rees, Waits a Bezeczky, 2024). Mae llawer o blant yn dymuno cadw cysylltiad â'u rhiant (Rees, Staples a Maxwell, 2017), a rhaid ystyried eu barn yn unol ag Erthygl 2 y CCUHP.

**Cydnabod anghenion pob plentyn**

2.20 Mae'r llenyddiaeth yn pwysleisio'r angen i ystyried anghenion unigol plant yr effeithir arnynt gan garchariad rhiant (Sutherland a Wright, 2017); Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, 2022). Nid yw plant a chanddynt riant yn y carchar yn grŵp homogenaidd; maent yn dod o amrywiaeth eang o gymunedau cymdeithasol, economaidd ac ethnig. Gall plant yng Nghymru y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt fod:

- yn siaradwyr Cymraeg
- o gymunedau Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol
- o gymunedau sy’n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr
- o deuluoedd mudol neu deuluoedd sy'n ceisio lloches
- yn niwrowahanol (e.e. awtistig, dyslecsig, ag anhwylder diffyg sylw/gorfywiogrwydd, ac ati)
- yn wynebu heriau iechyd meddwl
- â hunaniaeth LHDTC+
- â phrofiad o ofal
- wedi bod yn dystion i gamdriniaeth (ddomestig, emosiynol, gorfforol a rhywiol), neu fod wedi profi hynny
- wedi cael eu hesgeuluso
- yn meddu ar iaith gyfyngedig neu ddim iaith o gwbl (gallai hyn fod oherwydd eu hoedran, megis yn achos babanod neu blant ifanc iawn, neu oherwydd cyflwr meddygol)
- yn ofalwyr plant eraill neu oedolion

2.21 Mae yna amrywiaeth i’w gael hefyd o ran y profiad o fod â rhiant yn y carchar. Gall y cymorth y mae ar blentyn ei angen amrywio, er enghraifft, os yw’r rhiant sydd yn y carchar:

- yn fam neu’n brif ofalwr iddo (Minson, 2014)
- mewn carchar nad yw yng Nghymru (mae hyn yn wir am bob plentyn y mae ei fam yn y carchar, ac am gyfran sylweddol o'r plant y mae eu tad yn y carchar) (gweler Atodiad D am leoliad carcharorion o Gymru)

- wedi cyflawni math penodol o drosedd (e.e. trosedd rywiol, proffil uchel, neu ryng-deuluol) (Families Outside, 2016)
- mewn carchar dramor (Carcharorion Dramor, 2023)

Bydd pob plentyn yn ymateb yn wahanol i'w amgylchiadau, a bydd ei anghenion yn newid dros amser; mae'n bwysig cofio y bydd oedran (Deacon, 2019) a chydnerthedd (Sutherland a Wright, 2017) y plentyn yn effeithio ar y modd y gallai ymateb i garchariad rhiant a'r effaith seicolegol ddilynol y gallai hyn ei chael. Gall cydnerthedd plentyn amrywio o ganlyniad i'w rinweddau cynhenid; sefydlogrwydd y teulu; ansawdd perthnasoedd agos (megis y rhai â brodyr a chwiorydd); ei allu i gynnal perthynas â'i riant yn y carchar; a chyfleoedd i drafod ei sefyllfa'n agored (Sutherland a Wright, 2017; Jones et al, 2013; Kincaid, Roberts a Kane, 2019). Dangoswyd bod asesiadau o'r effaith ar blant yn helpu i nodi anghenion pob plentyn unigol (Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, 2022).

2.22 Mae'n bosibl na fydd pob plentyn a chanddo riant yn y carchar yn mynychu'r ysgol neu'n cael ei addysgu yn yr ysgol; mae dros 6,000 o blant yng Nghymru yn cael eu haddysgu gartref (Llywodraeth Cymru, 2024a), ac nid oedd 6.6% o bobl ifanc 16-18 oed yng Nghymru mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024 (Llywodraeth Cymru, 2024b). Yn ogystal, mae 2,597 o ddisgyblion mewn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) (Llywodraeth Cymru, 2024a).

2.23 Nid yw tua thraean o garcharorion yn cael ymweliadau gan deulu na ffrindiau (Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, 2024), felly ni all cymorth i blant a chanddynt riant yn y carchar ganolbwyntio ar y carchar yn unig. Mae'r llenyddiaeth yn nodi sawl rheswm pam nad yw plant yn ymweld â rhiant yn y carchar, gan gynnwys peidio â bod â pherthynas â'u rhiant mwyach (naill ai o ddewis neu oherwydd diffyg cyfle), pryderon diogelu yn atal cyswllt, goblygiadau ariannol a/neu ymarferol ymweld â charchar (gan gynnwys trafnidiaeth, bwyd, ac, i rai teuluoedd, llety dros nos), y plant ddim yn ymwybodol bod eu rhiant yn y ddalfa, cred rhiant nad yw ymweld â charchar er budd gorau'r plentyn, ac anabledd plentyn neu ei oedolyn cysylltiedig, a'r problemau hygyrchedd sy'n deillio o hynny (Minson, 2020).

## 3. Adolygu’r polisi

### Hawliau plant

3.1 Datblygodd Comisiynydd Plant Cymru fframwaith Y Ffordd Gywir ar gyfer datblygu dull gweithredu hawliau plant ledled Cymru (2022). Wedi'i wreiddio yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig (1989) ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC), gofynnir i sefydliadau ledled Cymru flaenoriaethu hawliau plant ym mhob agwedd ar brosesau gwneud penderfyniadau, a phob polisi ac ymarfer.

3.2 Argymhellodd Pwyllgor Gweinidogion Cyngor Ewrop (2018) (y mae'r DU yn parhau i fod yn rhan ohono) yn 2018 i aelod-wladwriaethau fod parch at eu hawliau dynol yn cael ei amlygu i blant â rhiant yn y carchar, a bod sylw dyledus yn cael ei roi i'w sefyllfa a'u hanghenion. Yn gymesur â'r CCUHP, mae'r argymhellion yn nodi y dylid gwrando ar farn plant, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ynghylch penderfyniadau a allai effeithio arnynt; y dylid rhoi ystyriaeth sylfaenol i hawliau plant a’u lles pennaf; a bod yn rhaid diogelu hawl y plentyn i berthynas emosiynol a pharhaus â'i riant yn y carchar. Argymhellodd y pwyllgor hefyd weithgarwch meithrin ymwybyddiaeth i oresgyn rhagfarnau. Felly, mae yna achos cymhellol dros ymgorffori hawliau plant a rhoi lle canolog i’w lleisiau ym mhob polisi i sicrhau bod ymarfer yn ystyried eu hanghenion mewn modd priodol. Dim ond wedyn y bydd plant a chanddynt riant yn y carchar, ac sydd, ar hyn o bryd ac i raddau helaeth, yn anweledig mewn prosesau cyfiawnder troseddol, ac, ar y gorau, yn ychwanegiad at y broses o adsefydlu eu rhiant, yn cael eu cydnabod a'u grymuso (Donson a Parkes, 2021).

3.3 Mae'r polisïau canlynol yn helpu i sicrhau bod cymorth i blant a chanddynt riant yn y carchar wedi'i wreiddio mewn dull hawliau plant sy'n seiliedig ar gryfderau:

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP). Er mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i wneud CCUHP yn rhan o'i chyfraith ddomestig, a hynny yn 2011, dim ond yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion roi ystyriaeth ddyledus i egwyddorion CCUHP a wnâi hyn. Ym mis Rhagfyr 2023, pasiodd yr Alban Ddeddf CCUHP (Ymgorffori) (Yr Alban), sy'n ymgorffori'r CCUHP yn llawn i gyfraith ddomestig ac yn darparu cynsail i Gymru wneud yr un peth.

Mae Cynllun Hawliau Plant (Llywodraeth Cymru, 2021a) wedi'i strwythuro o amgylch pum egwyddor y Ffordd Gywir. Mae hyn yn darparu fframwaith strategol ar

gyfer integreiddio hawliau plant i brosesau gwneud penderfyniadau, polisi ac ymarfer.

Rhoi Plant yn Gyntaf (Llywodraeth Cymru, 2017). Nid polisi neu raglen yw hyn gymaint â dull datganiedig Llywodraeth Cymru o weithio ar y cyd i fod o fudd i blant a phobl ifanc.

**Diogelu**

3.4 Rhaid i brosesau ar gyfer cadw plant yn ddiogel fod yn ganolog i unrhyw bolisi ac ymarfer sy'n cefnogi plant a chanddynt riant yn y carchar. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2022a) God Ymarfer Diogelu i gefnogi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, cod sy'n berthnasol i bob plentyn a, thrwy hynny, yn cynnwys plant a chanddynt riant yn y carchar. Yn ogystal, cyhoeddodd ganllawiau ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ar drefniadau ar gyfer diogelu plant, sef Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (2022b) Mae hefyd yn cynnal gwefan Diogelu Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2021a), sy'n cynnwys amrywiaeth o gyhoeddiadau a dogfennau ymarfer ynghylch egwyddorion diogelu, arfer effeithiol, diffiniadau allweddol a phrosesau. Mae Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2021b) yn amlygu categorïau gwahanol o blant ond, hyd yn hyn, nid ydynt yn cynnwys plant a chanddynt riant yn y carchar.

3.5 Mae adnoddau a chanllawiau rhyngwladol ar gael yn rhwydd i lywio gwaith diogelu plant. Mae'r rhain yn cynnwys yr adnoddau byd-eang Cadw Plant yn Ddiogel (2024) ac, yn hollbwysig yn achos plant a chanddynt riant yn y carchar, y Pecyn Cymorth Diogelu Plant gan Plant Carcharorion yn Ewrop (COPE, 2023).

**Adnabod**

3.6 Mae Erthygl 2 o'r CCUHP yn ei gwneud yn ofynnol i Wladwriaethau sy’n Barti sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw blentyn am unrhyw reswm. Heb ddata sydd o leiaf yn rhoi nifer cadarn a chywir o’r plant sy'n profi carchariad rhiant, bydd Gwladwriaethau sy’n Barti yn ei chael yn anodd sicrhau nad yw gwahaniaethu'n digwydd.

3.7 Mae Rheol 7f o Reolau Gofynnol Safonol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Trin Carcharorion 2015, sef Rheolau Nelson Mandela (Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throsedd, 2016), yn ei gwneud yn ofynnol i enwau aelodau'r teulu, gan gynnwys plant, eu hoedran, eu lleoliad a'u statws gwarchodaeth neu warcheidiaeth, gael eu cofnodi ar gyfer pob person sy'n mynd i mewn i garchar. Nid

yw'r rheol yn nodi a ellir rhannu'r wybodaeth hon neu ei chyfuno; a dweud y gwir, nid yw'n nodi diben cofnodi'r wybodaeth hon o gwbl. Fodd bynnag, gallai'r wybodaeth hon fynd ymhell o ran sicrhau bod plant sy'n profi carchariad rhiant neu ofalwr yn cael eu cefnogi a'u hamddiffyn trwy gyfrwng addysg, iechyd ac asiantaethau eraill na fyddent, o bosibl, yn gwybod am eu hamgylchiadau fel arall. Mae cofnodi nifer y plant a'r bobl ifanc a chanddynt riant yn y carchar hefyd yn ofyniad o dan Reol 3 Rheolau Bangkok (Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throsedd, 2015).

3.8 Ar hyn o bryd, nid yw Cymru'n dilyn y rheolau hyn o ran cofnodi gwybodaeth am y plant a'r bobl ifanc hyn yn systematig, er ei bod wedi llofnodi a chadarnhau'r offer uchod yn rhan o'r DU. Yn hytrach, dim ond ffigurau amcangyfrifedig sydd ar gael. Dim ond trwy gasglu, crynhoi a chyhoeddi data mewn modd systematig y gellir darparu'r wybodaeth ofynnol i wneud asesiadau cywir o’r angen ac ymateb yn ystyrlon i'r asesiadau hyn trwy bolisïau ac adnoddau. Fodd bynnag, gall y modd y gwneir hyn a’r modd y mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio fod yn sensitif iawn, fel y nodwyd yn yr adolygiad o’r llenyddiaeth. Mae'r mater hwn yn cael ei archwilio ymhellach yng nghanfyddiadau prosiect ASPIRE.

**Polisi addysg**

3.9 Nod Estyn, arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru, yw gwella safon yr addysg a’r hyfforddiant, ynghyd â deilliannau i bob dysgwr yng Nghymru. Mae adroddiad Estyn 2020, Adnabod eich plant – cefnogi disgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs), yn sail i brosiect ASPIRE. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at bwysigrwydd dull sy'n ystyriol o drawma wrth gefnogi plant sydd wedi profi ACEs, ac mae'n cynnwys argymhellion ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a'r llywodraeth, argymhellion sy'n cyd-fynd yn eithriadol o dda â chymorth i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Ymhlith y rhain mae:

- darparu hyfforddiant a chymorth i holl staff ysgolion uwchradd, nid yn unig y rhai sy'n ymwneud â gwaith bugeiliol, iddynt ddeall eu rôl o fod yn oedolyn posibl y gellir ymddiried ynddo ar gyfer disgyblion agored i niwed (ysgolion)
- cynorthwyo ysgolion i ddatblygu strategaethau sy'n seiliedig ar ACEs i gefnogi disgyblion agored i niwed (awdurdodau lleol)


- hyrwyddo Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru, sy’n annog bod gwybodaeth am ddisgyblion a theuluoedd agored i niwed yn cael ei rhannu ag ysgolion mewn modd amserol (y llywodraeth)

3.10 Mae Adroddiad Estyn 2020 yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydweithrediad effeithiol rhwng addysg a gwasanaethau cyhoeddus eraill wrth iddynt gefnogi plant.

3.11 Yn 2021, creodd Llywodraeth Cymru fframwaith i ymgorffori dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol plant (2021b). Mae'r fframwaith yn ceisio cefnogi llesiant emosiynol a meddyliol pob plentyn, gan gydnabod amrywiaeth a chymhlethdod yr anghenion a allai fod gan blant. Er na all ysgolion ar eu pen eu hunain ddiwallu pob angen, mae'r dull ysgol gyfan hwn yn rhan o ddull system gyfan ehangach o ddiwallu anghenion llesiant plant a phobl ifanc (Ibid). Yn nodedig, cyhoeddwyd y fframwaith ar ffurf canllawiau statudol i gyrff llywodraethu, a rhaid i ysgolion ac awdurdodau lleol roi ystyriaeth iddynt wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu. Mae'r fframwaith ysgol gyfan yn nodi bod “hyfforddiant ysgol gyfan yn y blynyddoedd diwethaf yn cynnwys hyfforddiant ar anhwylder ymlyniad, hyfforddiant emosiynau, dulliau adferol, a chynorthwyo plant rhieni sydd yn y carchar a’r rheiny sy’n cael eu hamlygu i gamdriniaeth ddomestig." (2021:49).

3.12 Yn ogystal, mae'r Hwb canolog ar gyfer Addysg yng Nghymru yn pennu pedwar diben y cwricwlwm (Llywodraeth Cymru, 2022c; Dysgu strwythurol, 2023) fel a ganlyn:

**Ffigur 1: Pedwar diben y cwricwlwm**




3.13 Mae i’r pedwar diben debygrwydd amlwg i anghenion plant pan fydd rhiant yn mynd i'r carchar, elfen y mae canfyddiadau prosiect ASPIRE yn tystio iddi.

**Llesiant y plentyn**

3.14 Yn 2022, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Cynllun Plant a Phobl Ifanc (a ddiweddarwyd yn 2024), sy'n cynnwys yr uchelgais i bob plentyn "gael y dechrau gorau mewn bywyd ac i fynd
ymlaen i fyw'r bywyd y mae’n dymuno ei fyw". Mae nifer o’r blaenoriaethau yn y cynllun hwn yn arwyddocaol i blant a chanddynt riant yn y carchar, yn enwedig y flaenoriaeth y dylai pob plentyn a pherson ifanc gael cymorth i sicrhau cyfle teg mewn bywyd, ynghyd â’r gefnogaeth angenrheidiol i aros gyda'i gilydd neu i ddod ynghyd eto, os yn bosibl, gydag aelodau’r teulu.

3.15 Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd bolisïau clir ar waith i fynd i'r afael ag ACEs. Nododd adolygiad Llywodraeth Cymru o'i pholisi ACEs yn 2021 fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y dechrau

gorau mewn bywyd, ac y dylai pob un gael y cyfle i wireddu ei botensial. Amlygodd yr adolygiad hwn yr angen i sicrhau nad yw ACEs, na'r iaith a ddefnyddir i ddisgrifio profiadau plant, yn datblygu i fod yn ffactorau penderfyniadol (Llywodraeth Cymru, 2021c). Efallai y bydd ffocws ar PACEs (profiadau amddiffynnol a chydadferol yn ystod plentyndod) yn fwy defnyddiol (Ratliff et al., 2024).

3.16 Sefydlodd Cymru Well Wales Hwb Cymorth ACE i helpu i lywio'r broses o gyflawni'r weledigaeth gyfunol ar gyfer Cymru, Cymru sy'n arweinydd o ran plentyndod heb ACEs. Mae hyn yn cynnwys datblygu dull ysgol sy'n ystyriol o ACEs i gydnabod y rôl hanfodol y mae ysgolion yn ei chwarae o ran lliniaru effaith drawmatig ACEs. Canfu gwerthusiad o Ddulliau Ysgolion sy'n Ystyriol o ACEs a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn tair ysgol uwchradd yng Nghymru y gall y dulliau hyn feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith staff, elfen sydd, yn ei thro, yn creu newid sefydliadol (Barton, Newbury a Roberts, 2018). Wrth bwysleisio'r rôl hanfodol y mae ysgolion yn ei chwarae wrth gefnogi plant, amlygodd yr adroddiad yr angen am newid systemau yn y sector addysg cyfan. Cydnabu Arolygiaeth Carchardai EF ac Adolygiad Farmer y gwaith a wnaed gan Waliau Anweledig a Pharth Ysgolion yn CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc fel enghraifft o hyn (Farmer, 2017).

3.17 Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi rhaglenni megis Symud Cymru Ymlaen, (2016) Plant yn Gyntaf (2017) a Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol (2019) i adeiladu gwasanaethau cyhoeddus 'ymwybodol o ACEs'. Mae'r mentrau hyn, a chreu Hwb ACE, wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o feithrin ymwybyddiaeth o ACEs.

3.18 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi llunio Llesiant Cymru, 2022: lles plant a phobl ifanc (2022) Mae'r adroddiad yn pennu nodau i greu cymdeithas sy'n galluogi pobl i wireddu eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). Mae'r polisi 'Gwneud Pethau'n Iawn ar gyfer Pob Plentyn' (GwE, 2017) yn canolbwyntio'n benodol ar gymorth i blant mabwysiedig a'u teuluoedd, ac yn paratoi'r ffordd i ddatblygu fframwaith tebyg ar gyfer plant a chanddynt riant yn y carchar.

**Polisi Cyfiawnder Troseddol**

3.19 Mae adolygiadau'r Arglwydd Farmer i gryfhau cysylltiadau teuluol i ddynion (2017) a menywod (2019) yn y carchar wedi cael dylanwad sylweddol ar bolisi ac ymarfer Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS). Mae'n bwysig cofio y

dywedodd yr Arglwydd Farmer fod “cyswllt teuluol yn tueddu i gael ei drin fel braint yn hytrach na hawl” (2017:28) ac, o’r herwydd, y byddai angen newid diwylliant i ymgorffori pwysigrwydd teuluoedd yn fframwaith polisi carchardai, elfen a fyddai’n gweithredu fel "edau aur yn rhedeg trwy'r fframweithiau polisi newydd" (2017:32). Tynnodd yr Arglwydd Farmer sylw at y rôl y gall teuluoedd ei chwarae ar gyfer y sawl yng ngharchar, a chododd broffil rôl teuluoedd yn sylweddol o fewn polisïau carchardai. Er bod yr adolygiadau'n arloesol, roedd y ffocws yn parhau i fod ar blant a theuluoedd fel offeryn ar gyfer adsefydlu effeithiol a lleihau troseddu, yn hytrach nag ar gydnabod teuluoedd a phlant fel pobl a chanddynt eu hawliau eu hunain. Roedd The Farmer Review for Women: Progress Report (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2023a) hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cysylltiadau teuluol a pherthnasau cefnogol, ond nid oedd yn cydnabod anghenion y plant yn benodol.

3.20 Amlygir pwysigrwydd mynd i'r afael ag ACEs mewn polisïau cyfiawnder troseddol allweddol yng Nghymru, megis y Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru (2018), strategaeth Teuluoedd ac Eraill Arwyddocaol yr HMPPS yng Nghymru (2019a), a’r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru, 2019). Fodd bynnag, mae mwyafrif y polisïau sy'n sôn am blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt yn bolisïau’r HMPPS neu ddarparwyr carchardai preifat, ac nid ydynt yn canolbwyntio ar blant; yn hytrach, maent yn canolbwyntio ar yr oedolyn yn y system gyfiawnder, neu'r unigolyn ifanc yn achos Sefydliadau Troseddwyr Ifanc.

3.21 Yng Nghymru, nid yw Cyfiawnder Troseddol yn fater datganoledig (yn wahanol i Addysg), ac mae pob polisi yn bolisi o eiddo San Steffan. Y prif bolisi cenedlaethol ar gyfer teuluoedd a phlant y rhai yng ngharchar yw Fframwaith Cryfhau Rhwymau Teuluol Carcharorion yr HMPPS (2019b). Nod hwn yw creu cyfleoedd i'r rhai yng ngharchar ryngweithio'n gadarnhaol â'u teuluoedd ac eraill arwyddocaol, tra bo gwasanaethau teuluol penodol fel arfer yn cael eu rhedeg gan sefydliadau'r trydydd sector.

3.22 O fis Ebrill 2018 ymlaen, roedd yn ofynnol i bob sefydliad carchardai ddatblygu ei strategaeth teuluoedd ac eraill arwyddocaol, a sicrhau ei bod ar gael yn rhwydd (HMPPS, 2019a; 2022). Mae gan bob carchar yng Nghymru bolisi teuluoedd ac eraill arwyddocaol ar waith; cyhoeddir y polisïau hyn ar wefan y Ganolfan Wybodaeth Genedlaethol am Blant Troseddwyr (NICCO).

**Menywod o Gymru yng ngharchar**

3.23 Mae Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod Cymru (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru, 2019) yn cydnabod bregusrwydd menywod sydd yn y system cyfiawnder troseddol (menywod sy'n aml yn ddioddefwyr eu hunain), ac yn cydnabod bod eu hanghenion yn rhai gwahanol i anghenion dynion sy'n troseddu. Y nod yw creu dull cydgysylltiedig i wella iechyd a llesiant emosiynol a chorfforol, gan feithrin perthnasoedd cadarnhaol a chefnogol o fewn teuluoedd. Er mwyn cyflawni hyn, mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, a'r heddluoedd yng Nghymru yn cydweithio i ddarparu glasbrintiau i ddarparu gwasanaethau troseddwyr benywaidd a chyfiawnder ieuenctid ar ffurf dull system gyfan.

3.24 Mae Cynllun Cyflawni Strategaeth Troseddwyr Benywaidd 2022-2025 yn nodi fframwaith diwygiedig y Weinyddiaeth Gyfiawnder i wella’r cymorth i fenywod yn y carchar (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2023b). Diweddarwyd y strategaeth hon i gynnwys pedwerydd nod: "mynd ati’n effeithiol i ailsefydlu menywod sy'n gadael carchar yn ôl mewn cymunedau, a hynny er mwyn lleihau'r risg y byddant yn aildroseddu" (2023b:3), sef yr unig gyfeiriad anuniongyrchol at ymgysylltu â phlant a theuluoedd.

3.25 Wrth adolygu'r polisi, gwelir bod yna ddiffyg cysylltiad rhwng polisïau sy'n canolbwyntio ar garchardai ac sy'n hyrwyddo cyswllt teuluol, a pholisïau sy'n ymwneud ag anghenion a hawliau plant. Ychydig o bolisïau sy'n cyfeirio at anghenion penodol plant a chanddynt riant yn y carchar. Fodd bynnag, tynnodd Pwyllgor Gweinidogion Cyngor Ewrop sylw at yr angen i osod "hawliau a buddiannau gorau" plant a chanddynt riant yn y carchar (neu riant â dedfryd ar fin cael ei chyhoeddi) fel y "brif ystyriaeth", a nododd fod "plant a chanddynt riant yn y carchar i gael eu trin â pharch at eu hawliau dynol a chan roi sylw dyledus i'w sefyllfa a'u hanghenion penodol" (Cyngor Ewrop, 2018). Rhaid diogelu hawliau a buddiannau'r plentyn; felly, dylai polisïau ac arferion fod yn canolbwyntio ar y plentyn.

## 4. Adolygiad o ymarfer

4.1 Er mwyn llywio'r ystyriaethau ar gyfer model cymorth ledled Cymru, cynhaliodd tîm ASPIRE adolygiad o ystod o fodelau ymarfer ledled Cymru, y DU, a thu hwnt sy’n cefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o'r holl arferion sy'n bodoli, ac nid yw o reidrwydd yn 'arfer gorau'; fodd bynnag, mae'n rhoi darlun o'r ystod o ymyraethau, gwasanaethau a modelau sy'n bodoli yn y DU ac yn rhyngwladol i gefnogi plant a chanddynt riant yn y carchar. Gweler Atodiad B am fanylion sefydliadau yn y DU sy'n cefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, ac Atodiad C am fanylion sefydliadau yng Nghymru.

**Cymorth yn y carchar i deuluoedd**

4.2 Yng Nghymru a Lloegr, mae’r HMPPS yn comisiynu’r gwaith o ddarparu gwasanaethau carcharorion, teuluoedd ac eraill arwyddocaol mewn carchardai cyhoeddus. Mae’r manylebau'n amrywio, yn dibynnu ar anghenion a maint poblogaeth y carchar; fodd bynnag, maent i gyd yn darparu gwasanaethau craidd, sy’n cynnwys cymorth 'cwrdd a chyfarch' ar gyfer ymweliadau, cyfleusterau chwarae i blant, gwybodaeth a chyngor canolfan ymwelwyr, a sicrhau gwell ymweliadau i deuluoedd. Gall gwell ymweliadau gynnwys ymweliadau a dargedir at blant a phobl ifanc, megis sesiynau Sefydlu Cwlwm Agosrwydd â Babanod, lle gall rhieni newydd dreulio amser gyda'u babanod, clybiau gwaith cartref, lle caiff plant eu cefnogi i ymgysylltu â gweithgareddau dysgu ar y cyd â’u rhiant yn y ddalfa, ac ymweliadau teuluol sy'n creu digwyddiadau anffurfiol, a’r rheiny’n canolbwyntio ar weithgareddau lle gall plant dreulio amser gyda'u haelod o'u teulu. Yn rhan o'r contractau hyn, gall rhai sefydliadau darparwyr hefyd ddarparu mentrau megis rhaglenni rhianta a pherthnasoedd, a chymorth gwaith achos un-i-un i rieni yn y ddalfa.

4.3 Yng Nghymru a Lloegr, mae'r sefydliadau canlynol yn darparu contractau gwasanaethau i garcharorion, teuluoedd ac eraill arwyddocaol: Barnardo's, Ymddiriedolaeth Gweithredu Swydd Lincoln, Teuluoedd Ormiston, Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (PACT), Partneriaid Carcharorion (POPS), Jigsaw, Nepacs, Waliau Anweledig Cymru, a Spurgeons (gweler Atodiad B am wybodaeth am bob sefydliad). Yna gall pob sefydliad estyn ei wasanaethau neu ei adnoddau yn y carchar ar gyfer teuluoedd/plant, a hynny trwy grantiau ychwanegol a chyllid gwirfoddol. Er enghraifft, yn CEF Caer-wynt, mae Spurgeons yn darparu Behind the

Wall Beyond the Gate, sef gwasanaeth ailsefydlu sy'n hoelio sylw ar anghenion plant a theuluoedd. Mae Nepacs, sy'n darparu contractau ymweld mewn carchardai yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, wedi creu 'parthau ieuenctid' yn rhai o'i ganolfannau ymwelwyr yn y carchardai, gan ddarparu cymorth targededig i bobl ifanc rhwng 8 a 17 oed. Mae Waliau Anweledig Cymru, sydd â'r contract ar gyfer gwasanaethau ymwelwyr mewn wyth sefydliad, gan gynnwys pedwar yng Nghymru, yn darparu'r model Parth Ysgolion ar rai o'i safleoedd (gweler yr astudiaeth achos ar ddiwedd yr adran hon).

4.4 Sefydlodd G4S Uned Ymyraethau i Deuluoedd yng Ngharchar ei Fawrhydi a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn 2010. Mae'r uned 60 gwely yn un ar gyfer dynion y nodwyd bod arnynt angen cymorth penodol o ran sefyllfa eu teulu, perthnasoedd neu rianta, ac mae mynediad i'r uned yn dibynnu ar ymgeiswyr yn llwyddo gerbron bwrdd asesu. Mae pob un o'r dynion ar yr uned yn arwyddo cytundeb sy'n golygu eu bod yn ymrwymo i gwblhau ymyraethau perthnasol a chadw at reolau llym yr uned, uned lle bo'r model i anelu ato yn un o fod yn 'ddyn teulu'. Mae gan bawb ar yr uned weithiwr achos penodedig, a chefnogir y carcharorion i gymryd rhan mewn ymyraethau megis rhaglenni rhianta a pherthnasoedd. Ar gyfartaledd, mae unigolion yn treulio rhwng wyth a phedwar mis ar ddeg ar yr uned (Strategaeth Teuluoedd ac Eraill Arwyddocaol Carchar ei Fawrhydi a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc, 2024-25).

4.5 Yn cael ei ddarparu gan Pact, mae Visiting Mum yn darparu cymorth arbenigol i famau yn y ddalfa a'u plant: mae un gwasanaeth yn cefnogi mamau o Gymru yn CEF Styal a CEF Eastwood Park (a ariennir gan yr HMPPS a Llywodraeth Cymru), ac mae un arall yn weithredol yn CEF Downview (a ariennir gan Comic Relief). Mae'r fenter yn cynnwys cymorth un-i-un i famau a'u plant, a gwelwyd ei bod yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant rhieni a phlant. Mewn gwerthusiad o'r cynllun peilot a gynhaliwyd yn CEF Eastwood Park, canfu Rees, Staples a Maxwell (2017) nad oedd plant yn cael fawr ddim cymorth y tu allan i'r fenter hon, ac felly roeddent yn gwerthfawrogi'r cynllun yn fawr.

4.6 Mae Together a Chance, cynllun peilot sy'n cael ei redeg gan Pact ac sy'n cael ei dreialu yng Ngharchardai Eastwood Park a Send, yn gosod gweithiwr cymdeithasol yn y carchar i gefnogi mamau a'u plant. Daeth gwerthusiad o'r prosiect i'r casgliad y gall y mamau dan sylw, gyda'r cymorth cywir a lle bo hynny er lles gorau'r plant, barhau i chwarae rhan ym mywydau eu plant a bod yn rhan o benderfyniadau sy'n

ymwneud â'u lles. (Rees, Waits a Bezeczky, 2024:13) Canfu hefyd fod mamau na allent gael cyswllt â'u plant yn dal i allu cyfrannu at fywydau eu plant mewn ffyrdd eraill, er enghraifft trwy waith stori bywyd (Ibid).

4.7 Mae Storybook Dads yn elusen sy'n gweithredu ledled y DU, ac mewn carchardai yng Nghymru. Mae'n cefnogi perthnasoedd rhwng rhieni a phlant trwy helpu rhieni yn y carchar i gofnodi straeon i'w plant wrando arnynt gartref. Canfu gwerthusiad o'i gwaith fod 97% o deuluoedd yn dweud bod clywed y straeon yn gwneud i'r plentyn deimlo'n agosach at ei riant yn y carchar (Storybook Dads, 2024).

4.8 Mae nifer o sefydliadau sy'n darparu cymorth teuluol mewn carchardai yn defnyddio cynadleddau ar gyfer grwpiau teuluol i gefnogi perthnasoedd teuluol. Mae aelodau staff Pact, er enghraifft, sy'n gweithio ar eu rhaglen Routes to Change yn CEF Brixton a CEF Isis ('dull perthynol ar gyfer y teulu cyfan' ac iddo'r nod o ddarparu rhaglen cymorth adsefydlu ac ailsefydlu integredig, o'r dechrau i'r diwedd, i garcharorion a'u plant), wedi'u hyfforddi mewn technegau cynadledda ar gyfer grwpiau teuluol. Yng Nghymru, mae elusen y Bont, sy'n cefnogi plant a wahanwyd neu sydd mewn perygl o gael eu gwahanu oddi wrth eu teulu, yn darparu prosiect o'r enw Cwlwm. Nod y prosiect Cwlwm yw rhoi i bob menyw o Ogledd Cymru sy'n gadael CEF Styal yn Swydd Gaer y cyfle i gael mynediad at Wasanaeth Datrys Anghytundebau y Bont fel y gall gynllunio trefniadau cyswllt a byw ar gyfer ei phlant ar ôl ei rhyddhau. Cynigir cyfle i bob menyw gael mynediad at wasanaeth cynadledda'r Bont ar gyfer grwpiau teuluol i'w helpu i hwyluso'r cynlluniau ar gyfer ei phlant. Mae'r model cynadleddau ar gyfer grwpiau teuluol yn ddull seiliedig ar gryfderau sy'n cydnabod cryfderau teuluoedd ac yn eu grymuso i ddefnyddio eu hadnoddau i ddiwallu anghenion y rhieni a'r plant.

### Adnoddau a chymorth i ysgolion

4.9 Mae sawl sefydliad yn y DU wedi datblygu adnoddau sy'n benodol gysylltiedig â darparu canllawiau ac offer i ysgolion er mwyn iddynt gefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Cyhoeddodd Families Outside yr ail rifyn o'u Guidance and Resources for Schools in Supporting Children Impacted by Imprisonment yn 2018, sef cyhoeddiad sy'n darparu e-adnodd i ysgolion, ac sy'n cynnwys clipiau ffilm a syniadau ar gyfer gwersi, offer, a chanllawiau defnyddiol i gefnogi plant mewn ysgolion. Yn ddiweddar, cynhyrchodd Pact Becyn Cymorth Ysgolion, sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac sy'n cynnwys ffilmiau, cynlluniau gwersi, gweithgareddau addas i'r oedran, fframweithiau polisi ysgolion, a

chanllawiau ar gyfer darparu grŵp cymorth cymheiriaid i blant yn yr ysgol y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Mae Barnardo's hefyd wedi datblygu nifer o adnoddau sy'n canolbwyntio ar gefnogi ysgolion, gan gynnwys y Pecyn Cymorth Gwasanaeth y Cytundeb Waliau Anweledig (Barnardo's, 2014), sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac a lywiodd ddatblygiad prosiect Parth Ysgolion Waliau Anweledig Cymru. Nod y pecyn cymorth yw cynyddu hyder staff ysgolion i gydnabod a chefnogi teuluoedd y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, a darparu adnoddau ar gyfer galluogi cymorth effeithiol trwy ddull ysgol gyfan. Mae'r elusen Children Heard and Seen wedi datblygu polisi ysgol enghreifftiol (2020) i gefnogi plant a chanddynt riant yn y carchar. Datblygwyd y polisi mewn partneriaeth â phlant, rhieni ac athrawon.

4.10 Ymhellach i ffwrdd, tynnodd Children of Prisoners Europe (COPE) ar ymarfer o bedwar ban byd i ddatblygu Reading Between the Lines: a toolkit to help schools support children with a parent in prison (2022a). Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys enghreifftiau o gymorth mewn ysgolion, adnoddau, ac argymhellion ar gyfer awgrymiadau ymarferol o ran y modd y gall ysgolion ddatblygu eu harfer i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt yn well. Yn yr Unol Daleithiau, mae'r cwricwlwm llythrennedd a chelfyddydol Joining Forces wedi cael ei ddatblygu fel adnodd ysgol i fyfyrwyr ar draws pob grŵp blwyddyn, ac fe'i cynlluniwyd i greu gofod cefnogol i blant a phobl ifanc y mae carchariad aelod o'r teulu wedi effeithio arnynt.

4.11 Er bod model Parth Ysgolion Waliau Anweledig Cymru yn cynnig un enghraifft o gydweithrediad rhwng carchardai ac ysgolion (gweler yr astudiaeth achos ar ddiwedd yr adran hon), mae nifer o sefydliadau ledled y Deyrnas Unedig wedi datblygu mentrau carchardai-ysgolion i feithrin ymwybyddiaeth o anghenion plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, i gyfeirio staff at adnoddau, ac i ddarparu arweiniad ynghylch y ffordd orau o gefnogi plant a'u teuluoedd yn amgylchedd yr ysgol. Bu i Barnardo's, er enghraifft, dreialu'r model Children Affected by Parental Imprisonment Champion ar gyfer ysgolion, gan hyfforddi aelodau staff ledled clystyrau o ysgolion cynradd ac uwchradd i gydnabod a chefnogi effaith carchariad rhiant. Mae Eiriolwyr Ysgolion yn cwrdd yn rheolaidd i adolygu polisïau ysgolion, rhannu arfer da, a pharhau i ddatblygu eu dysg a'u dealltwriaeth.

4.12 Er nad ydynt wedi'u targedu'n benodol at blant a chanddynt riant yn y carchar, dylid nodi bod yna fentrau ar gael mewn ysgolion sy'n cefnogi llesiant emosiynol plant.

Yng Nghymru, mae'r rhain yn cynnwys Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSAs), ynghyd â'r fenter Thrive, sydd wedi cael eu datblygu a'u cefnogi gan seicolegwyr addysgol ac ymchwil wyddonol i ddarparu cymorth emosiynol i ddisgyblion.

4.13 Sefydlwyd Prosiect Ysgolion Rijeka Croatia yn 2021 yn dilyn rhyddhau cyhoeddiad Ombwdsmon Plant Croatia, Both sides of the Bars, What we owe children whose parents are in prison. Wedi'i leoli yn Ysgol Gynradd Nikola Tesla yn Rijeka (sy’n agos at Garchar Rijeka), ac o dan arweiniad seicolegydd yr ysgol, roedd y prosiect yn cynnwys cydweithrediad rhwng swyddfa'r Ombwdsmon, plant, carchardai, ysgolion, y system addysgol ehangach, rhieni, y gyfarwyddiaeth carchardai, dinasyddion, a'r gymuned leol, ac amlygodd bwysigrwydd dull amlddisgyblaethol.

4.14 Yn yr Unol Daleithiau, mae Clybiau POPS yn cael eu darparu mewn ysgolion uwchradd ledled sawl gwladwriaeth. Mae'r clybiau'n seiliedig ar gelf ac yn anelu at ddarparu lle cynhwysol, grymusol i blant sydd wedi profi carchariad anwyliad. Bob blwyddyn, mae POPS yn cyhoeddi llyfr sy'n cynnwys y gwaith artistig a grëwyd gan blant a phobl ifanc sy'n mynychu clybiau POPS. Ceir sawl enghraifft yn rhyngwladol o grwpiau cymorth mewn ysgolion ar gyfer plant a phobl ifanc y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Canfuwyd bod y rhain yn cynyddu cydnerthedd plant ac yn gwella llesiant emosiynol (Roberts a Loucks, 2015).

4.15 Treialwyd y cynllun Handle with Care gyntaf yng Ngorllewin Virginia yn 2013, ac mae bellach yn gweithredu ar draws gwladwriaethau eraill yn America. Mae'r cynllun yn fodel o gydweithrediad rhwng asiantaethau gorfodi'r gyfraith, iechyd meddwl ac ysgolion. Os bydd swyddog gorfodi'r gyfraith yn dod ar draws plentyn yn ystod galwad tŷ, a hynny’n bennaf ar gyfer achos o gamdriniaeth ddomestig (a all gynnwys arestio aelod o'r teulu), mae’r model yn gorchymyn bod enw'r plentyn a'r tri gair: 'handle with care' i gael eu hanfon i'r ysgol cyn dechrau'r diwrnod ysgol nesaf. Cefnogir ysgolion sy'n rhan o'r cynllun i weithredu dulliau sensitif i drawma ar gyfer unigolion, dosbarthiadau a’r ysgol gyfan fel bod plant yn cael eu 'trin â gofal'. Er y cafwyd rhywfaint o feirniadaeth o'r model hwn (Adalist-Estrin, 2021), sef y mater o gymhwyso'r polisïau hyn yn ddiamod a chanlyniadau anfwriadol, amlygwyd y rôl werthfawr sydd gan gwnselwyr ysgolion o ran rhannu gwybodaeth, darparu cymorth, ac eirioli dros blant (Warren, Coker a Collins, 2019).

**Cymorth yn y gymuned**

4.16 Dangosodd McGillivray (2016) fod cymorth cymunedol i deuluoedd y mae carchariad yn effeithio arnynt, ac a ddarperir gan sefydliadau'r trydydd sector, wedi tyfu'n sylweddol ac yn cael ei ystyried yn effeithiol. Mae ymchwil hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd yr asiantaethau trydydd sector hynny sy'n cydweithio â'r sector cyhoeddus a sefydliadau eraill i ddarparu modelau cymorth effeithiol ac i rannu eu dysg a'u harbenigedd. Mae nifer sylweddol o sefydliadau'r trydydd sector ledled y Deyrnas Unedig yn darparu ystod o wasanaethau ac ymyraethau i gefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt (gweler Atodiad B). Mae modelau cymorth i blant a theuluoedd yn y gymuned yn cynnwys:

- cymorth cymheiriaid a chyfeillio i oedolion a phlant (dros y ffôn, wyneb yn wyneb, a thrwy gyfrwng grwpiau ar-lein)
- grwpiau cymorth/gweithgareddau i blant a phobl ifanc
- grwpiau cymorth a gwybodaeth galw heibio i oedolion
- digwyddiadau a sesiynau preswyl i blant a phobl ifanc
- llinellau ffôn cymorth a gwybodaeth
- gwaith achos un-i-un ar gyfer plant ac oedolion (ar-lein, dros y ffôn, ac wyneb yn wyneb)
- gwasanaethau mentora i blant a phobl ifanc
- prosiectau celfyddydol (yn cynnwys drama, celf a gwneud ffilmiau) sy'n galluogi plant a phobl ifanc i rannu eu barn a'u profiadau
- rhaglenni grymuso sy'n canolbwyntio ar roi cyfle i blant ddylanwadu ar bolisïau ac arferion

4.17 Er bod mwyafswm y cymorth cymunedol yn cael ei ddarparu ar gyfer teuluoedd a chanddynt riant yn bwrw dedfryd o garchar, mae rhai gwasanaethau cymorth yn cael eu hestyn i blant a theuluoedd gydol eu taith trwy'r system cyfiawnder troseddol – o gymorth a chyngor mewn llysoedd i gymorth gyda rhyddhau ac ailsefydlu. Mae’r cymorth i deuluoedd yn amrywiol ac yn adlewyrchu effaith eang carcharu aelod o'r teulu gan fod hynny’n cynnwys cyllid, llesiant emosiynol, tai, cymorth perthnasoedd, eiriolaeth, gwybodaeth ac arweiniad, magu plant a chyfeirio. Mae'r trydydd sector hefyd wedi datblygu ystod eang o adnoddau i gefnogi gwaith gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Ymhlith y rhain mae:

- fideos ac animeiddiadau ar gyfer plant, oedolion a gweithwyr proffesiynol sy'n canolbwyntio ar effaith y system cyfiawnder troseddol ar blant, gwybodaeth am fywyd yn y carchar, y teimladau sy'n gysylltiedig â charcharu rhiant
- llyfrau (ffuglen a ffeithiol) ar gyfer plant a phobl ifanc ac iddynt y nod o ateb rhai o'r cwestiynau cyffredin ynghylch carcharu rhiant
- adnoddau i ddarparu cymorth i rieni gefnogi eu plant
- canllawiau a phecynnau cymorth i gefnogi ymarferwyr i weithio gyda phlant ac amddiffyn hawliau plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt
- llyfrau gwaith, offer a gweithgareddau i weithwyr proffesiynol eu defnyddio ochr yn ochr â phlant i'w hannog i archwilio eu teimladau a nodi cwestiynau

4.18 Er bod yr adnoddau hyn yn cael eu cynnal yn bennaf ar dudalennau gwe sefydliadau unigol, mae'r Ganolfan Wybodaeth Genedlaethol am Blant Troseddwyr, a ddarperir gan Barnardo's, wedi casglu adnoddau i hwb gwybodaeth ar-lein canolog ar gyfer gweithwyr proffesiynol yng Nghymru a Lloegr. Mae i'r hwb dri chyfeiriadur: ymchwil, adnoddau a gwasanaethau, ac er nad yw wedi'i dargedu at blant a phobl ifanc, mae'n darparu dolenni i adnoddau a allai fod yn ddefnyddiol. Yn yr Unol Daleithiau, mae'r National Research Center on Children and Families of the Incarcerated yn darparu hwb gwybodaeth cenedlaethol tebyg sy'n cynnwys ymchwil, polisïau ac offer i gefnogi ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt.

4.19 Cafodd cyhoeddiad yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai This is Me: A Child Impact Assessment toolkit ei ddatblygu mewn cydweithrediad â phlant, pobl ifanc a rhieni. Mae'r adnodd wedi cael ei fabwysiadu gan ystod eang o ymarferwyr ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, o wasanaethau statudol i wasanaethau'r trydydd sector, i fod yn offeryn i ddeall anghenion plant yn well, gan sicrhau bod y ffocws yn parhau ar yr hyn y mae plant yn ei ddweud y mae arnynt ei angen ac y maent yn ei deimlo pan fydd eu rhiant yn ymwneud â'r system gyfiawnder. Cynlluniwyd i'r pecyn cymorth ddylanwadu ar y modd y mae ymarferwyr yn y gymuned yn gweithio gyda phlant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, ac mae'n cael ei werthuso ar hyn o bryd.

4.20 Comisiynwyd nifer o sefydliadau'r trydydd sector i ddatblygu mentrau strategol neu fentrau ledled awdurdodau lleol i gefnogi plant yn y gymuned y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Mae Cyngor Dinas Bryste, er enghraifft, wedi comisiynu everyFAMILY i weithio gyda phartneriaid allweddol (gan gynnwys carchardai,

gwasanaethau prawf, ysgolion a thimau cymorth cynnar) ar draws Bryste a De Swydd Gaerloyw i ddatblygu dull strategol o gefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Mae hyn wedi cynnwys hwyluso grŵp strategaeth amlasiantaethol, datblygu strategaeth ar draws Bryste ar gyfer cefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, darparu hyfforddiant amlasiantaeth, a sefydlu rhwydwaith Eiriolwyr amlasiantaethol. Mae Eiriolwyr yn bodoli mewn ystod eang o asiantaethau trydydd sector a statudol ar draws Bryste a De Swydd Gaerloyw, ac maent wedi'u hyfforddi i ddarparu cymorth, cyngor ac arweiniad i blant a theuluoedd, yn ogystal ag i gyfeirio at wasanaethau priodol.

4.21 Yng Ngogledd Cymru, mae'r prosiect Teuluoedd y mae Carchariad yn Effeithio Arnynt (FABI)[1] yn cael ei gomisiynu gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yng Ngogledd Cymru i ddarparu dull rhanbarthol, amlasiantaethol, strategol o sefydlu llwybrau clir a chyflym i gefnogi, arwain, a gwrando ar blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Arweinir y gwaith gan grŵp llywio amlasiantaethol o dros 40 o gynrychiolwyr trydydd sector a statudol, ac mae'n cynnwys darparu hyfforddiant meithrin ymwybyddiaeth i weithwyr proffesiynol.

4.22 Yn Swydd Rhydychen, mae Children Heard and Seen (elusen arbenigol sy'n cefnogi plant a theuluoedd y mae carchariad yn effeithio arnynt) wedi gweithio mewn partneriaeth ag Uned Lleihau Trais Dyffryn Tafwys a Heddlu Dyffryn Tafwys i dreialu Operation Paramount, sy'n anelu at nodi plant yn gyflym pan fydd rhiant yn cael ei anfon i'r carchar, a chynnig cymorth targededig. Pan fydd unigolyn â phlant sy'n byw yn Swydd Rhydychen yn cael ei anfon i'r carchar, mae Uned Lleihau Trais Dyffryn Tafwys yn rhoi gwybod i'r tîm plismona yn y gymdogaeth lleol, sydd wedyn yn cysylltu ag aelodau'r teulu ac yn cynnig atgyfeiriad at Children Heard and Seen iddynt gael cefnogaeth. Er bod y rhaglen hon yn anelu at gefnogi anghenion plant a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, mae rhai gwelliannau angenrheidiol wedi cael eu cydnabod, gan gynnwys y ffaith y gallai fod yn fwy priodol i Children Heard and Seen ymweld â theuluoedd yn hytrach na'r heddlu. Byddai hyn yn osgoi rhagor o droseddoli teuluoedd, ac yn lliniaru straen i blant a allai fod â chanfyddiadau negyddol o'r heddlu yn dilyn arestiad eu rhiant. Ar hyn o bryd, mae cynllun peilot Operation Paramount yn profi modelau gwahanol i bennu pwy sydd fwyaf addas i gynnal ymweliadau lles yng nghartrefi teuluoedd. Cafodd model tebyg ei dreialu yng

[1] Daeth yr arian ar gyfer y prosiect hwn i ben ddiwedd mis Awst 2024.

Nghymru ym mis Rhagfyr 2022, model a gynhaliwyd gan Uned Atal Trais Cymru (Atal Trais Cymru, 2022), ond nid yw wedi parhau.

4.23 Mae siarteri hefyd wedi cael eu datblygu gan sefydliadau mewn partneriaeth â phlant a phobl ifanc i sefydlu ymrwymiad amlasiantaethol i gefnogi hawliau ac anghenion plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Datblygodd Pact yr Our Voice Charter gyda phobl ifanc yn Llundain a chanddynt brofiad o garchariad rhiant, ac mae Barnardo's wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i annog ymrwymiad amlasiantaethol a rennir i safonau a ddatblygwyd gan blant, er enghraifft yn Essex ac ar Ynys Wyth, fel ei gilydd.

**Hyfforddiant**

4.24 Mae llawer o sefydliadau'r trydydd sector sy'n arbenigo mewn cymorth i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt yn darparu hyfforddiant i ymarferwyr amlasiantaethol er mwyn meithrin ymwybyddiaeth o’r effaith ar blant, datblygu sgiliau a magu hyder yn y gweithlu, a hyrwyddo gweithio rhyngasiantaethol. Mae ystod o raglenni hyfforddi, ar-lein ac wyneb yn wyneb, yn cael eu darparu ar draws y Deyrnas Unedig gan gynnwys:

- sesiynau byr i feithrin ymwybyddiaeth ar gyfer cynulleidfaoedd amlasiantaethol
- cyrsiau hyfforddi a ddatblygwyd ar gyfer sectorau penodol – megis addysg, gofal cymdeithasol, neu'r heddlu
- cyrsiau hyfforddi sy'n gysylltiedig ag adnoddau/pecynnau cymorth penodol ar gyfer cefnogi ymarfer gyda phlant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt
- sesiynau hyfforddi yn y carchar sy'n rhoi cyfle i ymarferwyr 'gerdded yn esgidiau' plentyn sy'n ymweld â rhiant yn y carchar (sesiynau sy’n aml yn seiliedig ar hyfforddiant Hidden Sentence a ddatblygwyd yn wreiddiol ar gyfer Action for Prisoners’ Families, er nad yw'r sefydliad hwn yn bodoli mwyach)
- hyfforddiant achrededig Datblygiad Proffesiynol Parhaus (mae Families Outside yn yr Alban a Children Heard and Seen yn Lloegr, fel ei gilydd, yn darparu rhaglenni hyfforddi achrededig)

4.25 Mae llawer o'r rhaglenni hyfforddi a ddarperir yn ymgorffori llais plant a phobl ifanc trwy gyfrwng dyfyniadau uniongyrchol, astudiaethau achos, neu ffilmiau byr sy'n cynrychioli eu profiadau. Mae rhai sefydliadau, megis Grŵp Cymorth Partneriaid Carcharorion (POPS), wedi cynnwys teuluoedd a chanddynt brofiad bywyd o'r system gyfiawnder i ddatblygu a darparu eu hyfforddiant. Mae Echoes of

Incarceration, sydd wedi'i leoli yn yr Unol Daleithiau, yn gweithio gyda phobl ifanc a chanddynt brofiad bywyd o garchariad rhiant i greu ffilmiau a ddefnyddir mewn hyfforddiant ar gyfer rhanddeiliaid cyfiawnder troseddol, gan gynnwys yr heddlu, staff carchardai a gweithwyr cymdeithasol (Echoes of Incarceration, ar-lein).

## 5. Cyfeiriadau


Adalist- Estrin, A., Burton, C., Moesau, A., Clary. T., Hender, O. a Jones, K. (2021) 'Identification of children with an incarcerated' parent', papur a gyflwynwyd yng Nghynhadledd Addysg mewn Carchardai Prifysgol Arizona State, UDA.

Baldwin, L. ac Epstein, R. (2017). 'Short but not sweet: a study of the impact of short custodial sentences on mothers & their children'. Caerlŷr: Prifysgol De Montfort

Barnardo's. (2012). Family support for children and families affected by imprisonment [ar-lein]. Cyrchwyd ar 12 Gorffennaf 2024.

Barnardo's. (2014). Plant sy'n teimlo effaith carcharu aelod o'r teulu [ar-lein]. Cyrchwyd ar 12 Gorffennaf 2024.

Barnardo's. 2024. Pecyn Cymorth y Cytundeb Waliau Anweledig [ar-lein]. Cyrchwyd ar 12 Gorffennaf 2024.

Barton, E., Newbury, A. a Roberts, J. (2018). Gwerthusiad o'r Dull Ysgol Gyfan wedi'i Lywio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE). Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Beresford, S. (2018). What about me? The impact on children when mothers are involved in the criminal justice system. Llundain: Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2017).

Brown, M. (2020). 'School counselor conceptualizations of the needs of children of incarcerated parents'. Children and Youth Services Review. 112, tt. 1-9

Children Heard and Seen. (2020). Model School Policy [ar-lein]. Cyrchwyd ar 12 Gorffennaf 2024.

Plant Carcharorion yn Ewrop. (2019). Children with imprisoned parents: Collecting data with a purpose [ar-lein]. Cyrchwyd ar 12 Gorffennaf 2024.

Plant Carcharorion yn Ewrop. (2020 heb ei gyhoeddi) 'Knowledge for action: Data collection as a pillar for change'. Paris: COPE.

Plant Carcharorion yn Ewrop. (2022a). Reading between the lines: a toolkit to help schools support children with a parent in prison. Paris: Plant Carcharorion yn Ewrop.

Plant Carcharorion yn Ewrop. (2022b). 'Building partnerships between schools and prisons: briefing paper'. Paris: Plant Carcharorion yn Ewrop.

Plant Carcharorion yn Ewrop. 2023. Pecyn Cymorth Diogelu Plant [ar-lein]. Cyrchwyd ar 28 Mehefin 2024.

Comisiynydd Plant Cymru. 2022. Y Ffordd Gywir – Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant [ar-lein] Cyrchwyd ar 11 Gorffennaf 2024.

Condry, R. a Scharff Smith, P. (2018). Prisons, Punishment, and the Family: towards a new sociology of punishment? Rhydychen, Y Deyrnas Unedig; Efrog Newydd, Efrog Newydd: Gwasg Prifysgol Rhydychen.

Conway, J. a Jones, E. (2015). 'Seven out of Ten? Not Even Close. A review of research on the likelihood of children with incarcerated parents becoming justice-involved' Prifysgol Central Connecticut State.

Cooper, V. et al. 2023. From arrest to release, helping families feel less alone: An evaluation of a Worcestershire pilot support project for families affected by parental imprisonment. Milton Keynes: Y Brifysgol Agored, Milton Keynes

Cyngor Ewrop. (2018). Recommendation CM/Rec(2018)5 of the Committee of Ministers to member States concerning children with imprisoned parents (2019) [ar-lein]. Cyrchwyd ar 28 Awst 2023.

Dallaire, D.H., Ciccone, A., a Wilson, L. C. (2010). 'Teachers' Experiences with and Expectations of Children with Incarcerated Parents'. Journal of Applied Developmental Psychology, 31, tt.281–290.

Deacon, R. (2019). 'No Longer a Child but Not Yet an Adult: Young people's experiences of a family member's imprisonment'. In Brief, 15.

Doka, K.J. (1989). Galar diymgeledd. Yn: Disenfranchised Grief: Recognizing Hidden Sorrow. Lexington Books/D. C. Heath a'r Cwmni, tt.3–11.

Donson, F. a Parkes, A. (2021) 'Making children visible: Children's rights and their role in parent-child contact within the prison system' yn A. Parkes ac F. Donson, goln Parental Imprisonment and Children's Rights. Abingdon: Routledge, 44-66)

Echoes of Incarceration. (dim dyddiad). Youth turning the lens on the criminal justice system [ar-lein]. Cyrchwyd ar 14 Medi 2024.

Estyn. (2020). Adnabod eich plant – cefnogi disgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod [ar-lein]. Cyrchwyd ar 11 Gorffennaf 2024.

Families Outside. (2016). Picking up the Pieces. Cyrchwyd ar 01 Awst 2024].

Families Outside. (2017). Guidance and Resources for Schools in Supporting Children Impacted by Imprisonment. Caeredin: Families Outside.

Families Outside. (2018). Guidance and Resources for Schools in Supporting Children Impacted by Imprisonment [ar-lein]. Cyrchwyd ar 12 Gorffennaf 2024.

Families Outside. 2023. Paying the Price: A Project on the Financial Impact on Families of Imprisonment and Release [ar-lein]. Cyrchwyd ar 30 Awst 2024.

Families Outside. 2024. No Easy Journey: The Costs & Barriers to Visiting Prison for Families Cyrchwyd ar 30 Awst 2024.

Yr Arglwydd Farmer. (2017). The Importance of Strengthening Prisoners' Family Ties to Prevent Reoffending and Reduce Intergenerational Crime: Adroddiad terfynol Adolygiad Farmer [ar-lein]. Cyrchwyd ar 11 Gorffennaf 2024.

Yr Arglwydd Farmer. (2019). Importance of strengthening female offenders' family and other relationships to prevent reoffending and reduce intergenerational crime. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Felitti, V. et al. (1998). 'Relationship of Childhood Abuse and Household Dysfunction to Many of the Leading Causes of Death in Adults'. American Journal of Preventive Medicine, 14(4), tt.245–258. doi:https://doi.org/10.1016/s0749-3797(98)00017-8.

Flynn, C. (2017). Changing minds to change lives: bringing research and practice closer together to improve responses to children with imprisoned parents. [ar-lein]. 2 Gorffennaf, Prifysgol Monash, Awstralia. [cyrchwyd ar 05 Awst 2024]. Ar gael yn: https://www.youtube.com/watch?v=dNIrYmeYLk0&t

Flynn, C. ac Erikkson A. (2017). 'Children of prisoners'. Yn: The Palgrave Handbook of Australian and New Zealand Criminology, Crime and Justice. Springer International Publishing AG, tt.437-448.

Goldsmith, C. a Byrne, D. (2018). Scoping the Needs of Prisoners' Families in West Sussex. Sussex Prisoners' Families.

GwE (2017). Croeso i GwE [ar-lein]. Cyrchwyd ar 12 Gorffennaf 2024.

Hardcastle, K., Bellis, M., Ford, K., Hughes, K., Garner, J. a Ramos Rodriguez, G. (2018). 'Measuring the relationships between adverse childhood experiences and educational and employment success in England and Wales: findings from a retrospective study'. Public Health, 165, tt. 106-116. https://doi.org/10.1016/j.puhe.2018.09.014

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF. (2019a). Strategaeth teuluoedd ac eraill arwyddocaol. Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF.

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF. (2019b). Strengthening Prisoners' Family Ties Policy Framework. Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF.

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF. 2022. Families & significant others KPT. Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF.

Hughes, K., Ford, K., Kadel, R. a Bellis, M. (2020) 'Health and financial burden of adverse childhood experiences in England and Wales: a combined primary data study of five surveys'. BMJ Open 2020; 10:e036374. doi: 10.1136 / bmjopen-2019-036374.

Jones, A. et al. (2013). COPING: Children of Prisoners: Interventions and Mitigations to Strengthen Mental Health [ar-lein]. Cyrchwyd ar 12 Gorffennaf 2024.

Keeping Children Safe. 2024. Llyfrgell adnoddau diogelu plant [ar-lein]. Cyrchwyd ar 11 Gorffennaf 2024.

Kincaid, S., Roberts, M. a Kane, E. (2019). Children of prisoners: fixing a broken system. Crest Advisory.

Long, T. et al. 2022. 'Improving Outcomes for Children Affected by Parental Involvement with the Criminal Justice System in Scotland'. Applied Research in Quality of Life, 17, tt.1883–1908. https://doi.org/10.1007/s11482-021-10012-0

Lösel, F. et al. (2012). Risk and protective factors in the resettlement of imprisoned fathers with their families. Ymddiriedolaeth Plant a Theuluoedd Ormiston: Milton.

Mannay, D. et al. (2015). Deall profiadau addysgol a safbwyntiau, cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru {ar-lein]. Cyrchwyd ar 12 Gorffennaf 2024.

McGillivray, C. (2016). Rendering Them Visible: A Review of Progress Towards Increasing Awareness and Support of Prisoners' Families. Caeredin: Families Outside.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2023a). The Farmer Review for Women: Progress Report [ar-lein]. Cyrchwyd ar 18 Hydref 2023.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2023b). Female Offender Strategy Delivery Plan 2022-2025 [ar-lein]. Cyrchwyd ar 18 Hydref 2023.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. 2024. Official Statistics in Development: Estimates of children with a parent in prison. Cyrchwyd ar 01 Awst 2024.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru. (2019). Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd yng Nghymru [ar-lein]. Cyrchwyd ar 29 Awst 2023.

Minson, S. (2014). Mitigating Motherhood. Cyrchwyd ar 01 Awst 2024.

Minson, S. (2017). Who cares? Analysing the place of children in maternal sentencing decisions in England and Wales. Traethawd Ymchwil DPhil.

Minson, S. (2020). Maternal Sentencing and the Rights of the Child. Cham, Y Swistir: Palgrave Macmillan.

Morgan, J. et al. (2013). 'A hidden group of children': Support in schools for children who experience parental imprisonment. Children and Society.

Morris, A. a Hays-Grudo, J. 2023. 'Protective and compensatory childhood experiences and their impact on adult mental health'. World Psychiatry: Chwef;22(1):150-151:doi: 10.1002/wps.21042. PMID: 36640391; PMCID: PMC9840496.

Murray, J., a Murray, L. (2010). 'Parental incarceration, attachment and child psychopathology'. Attachment and Human Development, 12(4), tt.289-309.

Myers, B.J. et al. (1999) 'Children of Incarcerated Mothers'. Journal of Child and Family Studies 8 (1), 11–25.

Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (PACT) 2024. Canllawiau newydd i ysgolion Cymru i gefnogi plant sydd â rhiant yn y carchar [ar-lein] Cyrchwyd ar 14 Medi 2024.

Philbrick, D. (1997). 'Child and adolescent mental health and the prisoner's child'. Durham.

Phillips, S. a Gates, T. (2010). ‘A Conceptual Framework for Understanding the Stigmatization of Children of Incarcerated Parents’. Journal of Child and Family Studies 20, tt. 286-294.

Pilotto, F. 2024. ‘Imprisoned mothers: experiences of motherhood between detention facilities and children’s schools’. Seminar y Scottish Centre for Crime & Justice Research, Prifysgol Napier, 26 Mehefin 2024.

Poehlmann, J. (2005). ‘Representations of Attachment Relationships in Children of Incarcerated Mothers’. Child Development, 76(3), tt.679-696.

Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2017). 2022. A Child Impact Assessment framework [ar-lein]. Cyrchwyd ar 11 Gorffennaf 2024.

Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2017). 2024. Bromley Briefings Prison Factfile Chwefror 2024 Cyrchwyd ar 01 Awst 2024].

Prisoners Abroad. 2023. A little window of time. Cyrchwyd ar 01 Awst 2024.

Raikes, B. (2021). Making sense of the impact of imprisonment on children and families. Traethawd ymchwil a gyflwynwyd i rannol gyflawni'r gofynion ar gyfer gradd Doethur mewn Athroniaeth.

Ratliff, E. et al. (2024) ‘Promotive and Buffering Effects of Protective and Compensatory Experiences on Mental Health and Adjustment in Young Adults’. Emerging Adulthood 12(3), 447-455.

Rees, A., Staples, E. a Maxwell, N. (2017). Final report June 2017: Evaluation of Visiting Mum Scheme [ar-lein]. Cyrchwyd ar 15 Awst 2023.

Rees, A., Maxwell, N., Lyttleton-Smith, J., a Staples, E. 2022. ‘Visiting Mum: Children's Perspectives on a Supported Scheme When Visiting Their Mother in Prison’. Child Care in Practice 28(3), tt. 247-262. 10.1080/13575279.2020.1769025.

Rees, A., Waits, C. a Bezeczky, Z. 2023. Together a Chance. Evaluation of the Social Worker for Mothers in Prison pilot project, 2021-2023: Ail adroddiad interim [ar-lein]. Prifysgol Caerdydd. Cyrchwyd ar 20 Medi 2023.

Rees, A., Waits, C. a Bezeczky, Z. 2024. Together a chance. Evaluation of the Social Worker for Mothers in Prison pilot project, 2021-2023: Adroddiad terfynol [ar-lein]. Prifysgol Caerdydd. Cyrchwyd ar 30 Awst 2024.

Roberts, M. (2012). The Role of Schools in Supporting Families Affected by Imprisonment. Caeredin: Families Outside.

Roberts, S. a Loucks, N. (2015). 'The role of schools in supporting families affected by imprisonment'. Law in Context, 32, tt.126-146.

Robertson, S. (2011). Collateral Convicts: Children of incarcerated parents. Swyddfa Cenhedloedd Unedig y Crynwyr.

Robertson, O. et al. (2016). 'Children of Prisoners: Their Situation and Role in Long-Term Crime Prevention'. Yn: Women and Children as Victims and Offenders: Background, Prevention, Reintegration. Springer International Publishing, tt. 203-232.

Saunders, V. (2018). 'What does your dad do for a living? Children of prisoners and their experiences of stigma'. Children and Youth Services Review, 90, tt.21-27.

Gofal Cymdeithasol Cymru. (2021a). Gweithdrefnau Diogelu Cymru Adran 1, Egwyddorion diogelu ac arfer effeithiol [ar-lein]. Cyrchwyd ar 11 Gorffennaf 2024.

Gofal Cymdeithasol Cymru. (2021b). Gweithdrefnau Diogelu Cymru Adran 6, Canllawiau ymarfer diogel [ar-lein]. Cyrchwyd ar 11 Gorffennaf 2024.

Storybook Dads. 2024. The difference we make to families [ar-lein]. Cyrchwyd ar 01 Awst 2024.

Structural Learning. 2023. The Curriculum for Wales [ar-lein]. Cyrchwyd ar 11 Gorffennaf 2024.

Sutherland, L. a Wright, P. (2017). Supporting children and families affected by a family member's offending – A Practitioner's Guide [ar-lein] Cyrchwyd ar 14 Medi 2024.

Y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol. 2022. THE GOLDEN THREAD: Putting family at the heart of the criminal justice system [ar-lein]. Cyrchwyd ar 31 Gorffennaf 2023.

Turney, K. (2018). 'Adverse childhood experiences among children of incarcerated parents'. Children and Youth Services Review, 89, tt.218–225. doi:https://doi.org/10.1016/j.childyouth.2018.04.033.

Y Cenhedloedd Unedig. (1989). Convention on the Rights of the Child [ar-lein]. Cyrchwyd ar 11 Gorffennaf 2024.

Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throseddau. (2016). The Nelson Mandela Rules: The United Nations Standard Minimum Rules for the Treatment of Prisoners. International Legal Materials 55(6), tt.1180–1205. doi:https://doi.org/10.1017/s0020782900030898.

Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throseddau. (2015). The Bangkok Rules: United Nations Rules for the Treatment of Women Prisoners and Non-custodial Measures for Women Offenders with their Commentary [ar-lein]. Cyrchwyd ar 11 Gorffennaf 2024.

Uned Atal Trais Cymru. (2022). Operation Paramount [ar-lein]. Cyrchwyd ar 16 Awst 2023.

Warren J, Coker, G. a Collins, M. (2019). 'Children of Incarcerated Parents: Considerations for Professional School Counselors. The Professional Counselor, 9(3), tt.185-199.

Llywodraeth Cymru. (2016). Datganiad Ysgrifenedig – Symud Cymru Ymlaen: Amcanion llesiant Llywodraeth Cymru [ar-lein]. Cyrchwyd ar 4 Medi 2024.

Llywodraeth Cymru. (2017). Datganiad Ysgrifenedig – Plant yn Gyntaf (7 Mehefin 2017) [ar-lein]. Cyrchwyd ar 11 Gorffennaf 2024.

Llywodraeth Cymru. (2018). 2018-2023: Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru [ar-lein]. Cyrchwyd ar 29 Awst 2023.

Llywodraeth Cymru. (2019). Ffyniant i bawb – y strategaeth genedlaethol. Cyrchwyd ar 04 Medi 2024.

Llywodraeth Cymru. (2021a). Cynllun Hawliau Plant 2021 [ar-lein]. Cyrchwyd ar 11 Gorffennaf 2024.

Llywodraeth Cymru. (2021b). Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru; Addysg Cymru

Llywodraeth Cymru. (2021c). Adolygiad o'r polisi ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod: adroddiad [ar-lein] Ccyrchwyd ar 04 Awst 2023.

Llywodraeth Cymru. (2022a). Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cod Ymarfer Diogelu. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Cyrchwyd ar 28 Mehefin 2024.

Llywodraeth Cymru. (2022b). Cadw dysgwyr yn ddiogel. Cyrchwyd ar 15 Hydref 2024].

Llywodraeth Cymru. (2022c). Datblygu gweledigaeth ar gyfer cynllunio cwricwlwm – Hwb [ar-lein].

Llywodraeth Cymru. (2022d). Llesiant Cymru, 2022: lles plant a phobl ifanc Cyrchwyd 28 Awst 2022].

Llywodraeth Cymru. (2024a). Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol: Medi 2023 i Awst 2024 (diwygiad). Cyrchwyd ar 15 Hydref 2024.

Llywodraeth Cymru. (2024b) Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET): Ebrill 2023 i Fawrth 2024 Cyrchwyd ar 01 Awst 2024.

Worden, J. (2009). Grief Counseling and Grief Therapy: A Handbook for the Mental Health Practitioner (4ydd agraffiad). Springer Publishing Company.

## Atodiad A: Aelodau'r grŵp cynghori arbenigol

Pact

HMPPS - Y Rhaglen Menywod mewn Cyfiawnder

HMPPS - Lleihau Aildroseddu

Clinks

Tîm Lles Addysg - Blaenau Gwent

HMPPS - Y Rhaglen Menywod mewn Cyfiawnder

Arbenigwr trwy brofiad - Unigolyn ifanc â mam yn y carchar gynt

Arbenigwr trwy brofiad - Mam yn y carchar gynt

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru

G4S - Waliau Anweledig Cymru

Teuluoedd Gogledd Cymru y mae Carchariad yn Effeithio Arnynt (FABI)

Barnardo's

Pact

Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Llywodraeth Cymru - addysg

HMPPS

HMPPS Cymru

Atodiad B: Sefydliadau yn y DU sy'n cefnogi teuluoedd y mae carchariad yn effeithio arnynt

☐ Sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru ar hyn o bryd

| **Enw'r sefydliad** | **Disgrifiad** | **Gwefan** |
|---|---|---|
| Gweithredu dros Blant | Elusen ledled y DU sy'n cefnogi plant a phobl ifanc ac sy'n darparu canolfan ymwelwyr â'r carchar yn CEF Grampian | Cartref – Action for Children |
| Apex Scotland | Elusen cyfiawnder troseddol genedlaethol yn yr Alban a chanddi wasanaethau sy'n cynnwys cynnal canolfan ymwelwyr yn CEF Inverness | Apex Highland |
| Barnardo's | Elusen ledled y DU sy'n cefnogi plant a theuluoedd, ac y mae ei gwasanaethau'n cynnwys gwaith arbenigol sy'n canolbwyntio ar blant a chanddynt riant yn y carchar. Mae'n darparu rhaglenni hyfforddi, canolfannau ymwelwyr mewn carchardai (CEF Berwyn, CEF Ynys Wyth, CEF Caeredin) a chymorth yn y gymuned ac ar-lein | Plant a chanddynt riant neu berthynas yn y carchar \| Barnardo's (barnardos.org.uk) |
| Children Heard and Seen | Elusen sy'n gweithio ar draws Lloegr i gefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. Mae'n cynnig cymorth 1-1, gwasanaeth mentora gwirfoddol, cymorth i rieni, grwpiau cymorth cymheiriaid i blant, gweithgareddau ar-lein i blant, a diwrnodau gweithgareddau | Cartref – Children Heard and Seen |
| Corona Kids | Sefydliad yn Llundain sy'n darparu hyfforddiant Hidden Sentence a hyfforddiant ar brofiadau ymweld â charchardai ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant. Mae hefyd yn darparu prosiectau cymorth i gryfhau rhwymau teuluol ac arfogi ysgolion. | Corona Kids |
| The Croft | Wedi'i sefydlu'n benodol ar gyfer ymweliadau â CEF Barlinnie i groesawu ymwelwyr, darparu | Canolfan Ymwelwyr â'r Carchar The Croft |

| | | |
|---|---|---|
| | gwybodaeth iddynt, a'u cysylltu â chymorth | |
| CrossReach | Cangen gyflenwi Cyngor Gofal Cymdeithasol Eglwys yr Alban, dan gontract gan Gyfiawnder Cymunedol Llywodraeth yr Alban i ddarparu canolfannau ymwelwyr yn CEF Perth, a CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Polmont. | Canolfan Cymorth a Chyngor i Ymwelwyr â CEF Perth<br>Canolfan Ymwelwyr â'r Carchar Polmont |
| Cyrenians | Sefydliad yn yr Alban sy'n canolbwyntio ar atal digartrefedd ac yn cynnal canolfan ymwelwyr â'r carchar yn CEF Addiewell | Canolfan Ymwelwyr CEF Addiewell |
| Early Years Scotland | Elusen yn yr Alban sy'n rhedeg y Rhaglen Plant Ifanc y mae Carchariad Rhiant yn Effeithio Arnynt (Rhaglen Tadau a sesiynau Dysgu Gyda'n Gilydd Trwy Chwarae) mewn chwe charchar yn yr Alban, yn ogystal â gwasanaethau i ymwelwyr â'r carchar yn CEF Greenock a CEF Low Moss. | Gwasanaethau Carchardai Early Years Scotland |
| The Ebb | Cymorth yng Nghaerlŷr i deuluoedd carcharorion | The Ebb |
| Every Family | Fe'i comisiynwyd gan Gyngor Dinas Bryste a Chyngor De Swydd Gaerloyw i ddatblygu dull strategol o gefnogi plant y mae trosedd rhiant yn effeithio arnynt. | Plant y mae Trosedd Rhiant yn Effeithio Arnynt \| Every Family |
| Rhaglen Teuluoedd Gogledd Cymru y mae Carchariad yn Effeithio Arnynt (FABI) | Rhaglen strategol amlasiantaethol i wella'r cymorth i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, ac sy'n cynnwys hyfforddiant i weithwyr proffesiynol | Rhaglen Teuluoedd Gogledd Cymru y mae Carchariad yn Effeithio Arnynt (FABI) 2023 \| Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru (northwales-pcc.gov.uk) |
| Teuluoedd a Ffrindiau Carcharorion De-orllewin Cymru (FFOPS) | Darparu cymorth trwy gyfrwng canolfan galw heibio i deuluoedd y mae'r system cyfiawnder troseddol yn Ne-orllewin Cymru yn effeithio arnynt | Amdanom Ni — FFOPS |
| Families First, YSS | Mae'n darparu cymorth i blant yn Swydd Gaerwrangon a chanddynt aelod agos o'r teulu (rhiant, tad-cu, brawd neu chwaer) yn mynd trwy'r system cyfiawnder troseddol ar y | Families First \| YSS |

| | | |
|---|---|---|
| | pryd, a hynny o'r adeg y caiff yr aelod ei arestio i ddiwrnod ei ryddhau o'r carchar. | |
| Families Outside | Yr unig elusen genedlaethol yn yr Alban sy'n gweithio'n benodol i gefnogi plant a theuluoedd y mae carchariad yn effeithio arnynt. Mae'n gwneud hynny trwy ddarparu hyfforddiant proffesiynol, cymorth gan gymheiriaid, cymorth 1-1, llinell gymorth genedlaethol a datblygiad strategol | Help, gwybodaeth a chymorth i deuluoedd y mae carchariad yn effeithio arnynt \| Families Outside |
| Forth Valley Inclusion | Sefydliad elusennol seiliedig ar ffydd sy'n darparu cymorth i bobl yn y carchar a'u hymwelwyr yn CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Stirling a CEF Glenochil | Cartref – Forth Valley Inclusion |
| Getting Better Together Ltd | Menter iechyd yn y gymuned sy'n hyrwyddo addysg, iechyd a llesiant preswylwyr Gogledd Swydd Lanark, gan gynnwys rhedeg canolfan ymwelwyr â'r carchar yn CEF Shotts | Prosiect Amser Teulu CEF Shotts |
| Himaya Haven | Sefydliad yn Birmingham sy'n canolbwyntio ar weithio gyda chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol | Himaya Haven |
| Waliau Anweledig Cymru | Cwmni Buddiant Cymunedol sy'n darparu cymorth i deuluoedd, hyfforddiant, gwasanaethau canolfannau ymwelwyr (yn CEF y Parc, CEF Caerdydd, CEF Brynbuga, a CEF Prescoed), a chymorth mewn ysgolion | Cartref – Waliau Anweledig |
| Jigsaw | Yn darparu canolfan ymwelwyr a gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn CEF Leeds a CEF Wealstun | CARTREF \| Jigsawcharity |
| Lincolnshire Action Trust | Yn darparu canolfan ymwelwyr a gwasanaethau cymorth i deuluoedd mewn carchardai ledled Swydd Lincoln | Cymorth i Deuluoedd ac Eraill Arwyddocaol – Lincolnshire Action Trust (latcharity.org.uk) |
| Canolfan Wybodaeth Genedlaethol am Blant | Cyfeiriadur ar-lein ar gyfer gweithwyr proffesiynol yng Nghymru a Lloegr i gefnogi gwaith gyda phlant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt. | NICCO |

| | | |
|---|---|---|
| Troseddwyr (NICCO) | | |
| NEPACS | Mae'r elusen hon, sy'n gweithio yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, yn darparu gwasanaethau canolfannau ymwelwyr â charchardai, a chymorth 1-1 a chymorth grŵp i blant a theuluoedd y mae'r system cyfiawnder troseddol yn effeithio arnynt. | Nepacs |
| NIACRO | Gan weithio ar draws Gogledd Iwerddon, nod yr elusen yw lleihau trosedd a'r effaith ar deuluoedd, a darparu gwasanaethau canolfannau ymwelwyr, cymorth 1-1 a chymorth gwaith grŵp | NIACRO \| |
| One Small Thing | Sefydliad yn Llundain sy'n darparu hyfforddiant i ymarferwyr yn y sectorau cymunedol a chyfiawnder ar effaith trawma | One Small Thing |
| Ormiston | Yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i gefnogi teuluoedd y mae carchariad neu ymddygiad troseddol perthynas yn effeithio arnynt, gwasanaethau sy'n cynnwys rhedeg canolfannau ymwelwyr mewn wyth carchar yn ne-ddwyrain Lloegr, a'r gwasanaeth Breaking Barriers, sy'n cynnig cymorth 1-1 i blant a phobl ifanc | Gweithio gyda theuluoedd y mae troseddu'n effeithio arnynt – Ormiston Families |
| Out There | Elusen sy'n darparu cymorth emosiynol ac ymarferol a gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd carcharorion ym Manceinion Fwyaf. | Yr elusen Out There (SFOP) – Manceinion 0161 232 8986 (outtherecharity.org) |
| Pact | Elusen genedlaethol sy'n gweithio ar draws Cymru a Lloegr ac yn darparu ystod sylweddol o wasanaethau i gefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, gan gynnwys cymorth yn yr ysgol, hyfforddiant proffesiynol, cymorth 1-1 a chymorth gwaith grŵp, a chanolfannau ymwelwyr mewn mwy na 60 o garchardai (sy'n cynnwys CEF Abertawe, CEF Style a CEF Eastwood Park) | Cartref – Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (PACT) |

| | | |
|---|---|---|
| POPS (Grŵp Cymorth Partneriaid Carcharorion) | Yn darparu canolfan ymwelwyr a gwasanaethau cymorth i deuluoedd mewn un ar ddeg o garchardai ledled gogledd-orllewin Lloegr | Partneriaid Carcharorion \| Mae POPS yn darparu gwybodaeth a chymorth i deuluoedd troseddwyr o adeg eu harestio hyd at eu rhyddhau, a thu hwnt. |
| Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2017). | Elusen annibynnol yn y DU sy'n gweithio i greu system gosbi gyfiawn, drugarog ac effeithiol. Mae wedi llunio adnoddau i gefnogi gwaith gyda phlant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, ac mae'n ymgyrchu ar eu rhan. | 'This is Me': Pecyn cymorth Asesiad o'r Effaith ar Blant \| Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai |
| Llinell Gymorth Teuluoedd Carcharorion | Gwasanaeth ledled Cymru a Lloegr a ddarperir gan Pact ac sy'n gweithredu llinell gymorth am ddim a hwb gwybodaeth ar-lein i deuluoedd. | Llinell Gymorth Teuluoedd Carcharorion (prisonersfamilies.org) |
| Spurgeons | Elusen genedlaethol i blant sy'n gweithio ledled Lloegr. Mae'n darparu canolfan ymwelwyr a gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn CEF Caer-wynt, yn ogystal â gwasanaeth ailsefydlu trwy'r gât i gefnogi teuluoedd | BTWBTG \| Help for Released Prisoners UK (spurgeons.org) |
| Canolfan Gymunedol Summerhill | Elusen leol yn Dumfries a chanddi ymrwymiad Dysgu a Datblygu Cymunedol i wella amodau bywyd a rhyddhad tlodi i bob oed yn y gymuned ehangach. Yn cynnwys datblygiad personol mewn Addysg, Hamdden, Chwaraeon, Iechyd a Llesiant, cynulliadau cymdeithasol, a gweithgareddau amgylcheddol | Gwasanaeth Ymwelwyr â Charchar Summerhill |
| Sussex Prisoners Families | Elusen leol sy'n gweithio yn Sussex i gefnogi plant a theuluoedd y mae'r system cyfiawnder troseddol yn effeithio arnynt, a hynny trwy gyfrwng gwaith 1-1, gwaith grŵp a gweithgareddau | Cartref – Sussex Prisoners' Families (sussexprisonersfamilies.org.uk) |
| Time Matters UK | Elusen yng Nglannau Mersi sy'n cefnogi plant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt, a hynny mewn grwpiau ac yn unigol, wyneb yn wyneb ac ar-lein. Mae wedi datblygu amrywiaeth o adnoddau mewn cydweithrediad â phobl ifanc i gefnogi | Cartref – Time-Matters UK (timemattersuk.com) |

| | | |
|---|---|---|
| | gweithwyr proffesiynol, plant a'u teuluoedd | |
| Y Bont | Elusen yng Nghymru sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sydd, am ba reswm bynnag, wedi eu gwahanu, neu mewn perygl o gael eu gwahanu, oddi wrth eu teuluoedd (gan gynnwys y rhai y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt). Mae'r sefydliad yn cynnig gwasanaeth cwnsela, rhaglenni grŵp, a chymorth 1-1 | Y Bont \| Helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd |

## Atodiad C: Gwasanaethau ac adnoddau Cymraeg i blant y mae carchariad rhiant yn effeithio arnynt


| Math o wasanaeth/adnodd | Darpariaeth |
|---|---|
| Cymorth yn y carchar i deuluoedd a gwasanaethau ymwelwyr | Waliau Anweledig Cymru: CEF Caerdydd, CEF Brynbuga, CEF Prescoed, a CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc<br>Pact (Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai): CEF Abertawe, CEF Eastwood Park, CEF Styal, a'r rhaglen Visiting Mum<br>Barnardo's: CEF Berwyn<br>Teuluoedd a Ffrindiau Carcharorion (FFOPs): Cymorth cymheiriaid i deuluoedd CEF Abertawe<br>Y Bont: Prosiect Cwlwm CEF Styal<br>Storybook Dads |
| Cymorth yn yr ysgol a'r gymuned i blant a phobl ifanc | Pact: Prosiect Estyn Allan, gwaith allgymorth a chymorth cymheiriaid mewn ysgolion, a gwasanaethau cyfeillio i oedolion.<br>Barnardo's: gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a chysylltiadau â gwasanaethau yn y gymuned, gan gynnwys cyfarfodydd rhieni-athrawon ar-lein.<br>Waliau Anweledig Cymru: Parth Ysgolion |
| Gwaith datblygu strategol | Teuluoedd Gogledd Cymru y mae Carchariad yn Effeithio Arnynt (FABI)[2] |
| Hyfforddiant i weithwyr proffesiynol | Pact<br>Barnardo's<br>FABI[3]<br>Waliau Anweledig Cymru |
| Adnoddau a phecynnau cymorth Cymraeg | Pact Llawlyfr Ysgolion Cymru (2024)<br>Barnardo's Cymorth i blant a theuluoedd y mae carchariad yn effeithio arnynt – Llawlyfr ar gyfer gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf yng Nghymru (2012)<br>Barnardo's Pecyn Cymorth Adnoddau y Cytundeb Waliau Anweledig (2024)<br>Barnardo's Llawlyfr i Ysgolion Cymru (2014)<br>Llywodraeth Cymru Cyngor i rieni: Cefnogi'ch plentyn pan fydd rhiant yn mynd i'r carchar (2023) |


[2] Daeth yr arian ar gyfer y gwasanaeth hwn i ben ddiwedd mis Awst 2024
[3] ibid.

## Atodiad D: Poblogaeth carchardai Cymru

Cymerwyd y data canlynol o Gais Rhyddid Gwybodaeth a gyflwynwyd i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2023:[4]. Mae'n cynrychioli cipolwg o nifer y Cymry a oedd yn y ddalfa ar 1 Medi 2023.

Roedd 4,811 o ddynion a 245 o fenywod o Gymru mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr ar 1 Medi 2023.




[4] Cais Rhyddid Gwybodaeth 230831045 Cymry yn y carchar yn ôl Ethnigrwydd 2023, a ddyfynnir yn: [Cymry yn y Carchar – Cais Rhyddid Gwybodaeth i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder – WhatDoTheyKnow]